
ECO'R WYDDFA

Rhif 197 Nadolig 1993 / Ionawr 1994 Pris 25c

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl ddarllenwyr,
hysbysebwyr, noddwyr
a gweithwyr.

CROESAWU DWY O MALAYSIA



Mae Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, wedi cael dau ymwelydd o Malaysia. Arolygwyr ysgolion yw Elizabeth Joseph a Rokiah Ismail a buont yn edrych ar agwedd ar addysg yng Ngwynedd. Gwelsant Ysgol Uwchradd, Ysgol Arbennig, Swyddfa Addysg ac Ysgol Feithrin mewn rhannau eraill o'r sir. Ond ar gyfer eu hymweliad ag Ysgol Gynradd fe ddewiswyd Deiniolen.

Croesawyd yr ymwelwyr i'r Ysgol gan y Prifathro, Owen Glyn Roberts a'i staff. Meddai, 'Cawsant weld mor liwgar a braf yw'r ysgol a bu'n brofiad addysgiadol i'r plant yn ogystal â'r Arolygwyr.'

Yn y llun gwelir yr Arolygwyr yn sgwrsio â phlant y Dosbarth Babanod o flaen y goeden Nadolig.

LLYNCU MUL

Wedi i dimau pêl-droed gwledydd Prydain fethu cyrraedd rowndiau terfynol Cwpan y Byd mae'n amlwg bod y bobol sy'n rheoli'r teledu wedi llyncu mul go iawn. Nid oedd yr un o'u sianelau yn darlledu'r busnas o benderfynu pwy fydd yn y gwahanol grwpiau. Gallwch fentro y bydd pobol teledu Lloegr yn ceisio dangos dros y misoedd nesaf gymaint tlotach fydd y gystadleuaeth heb eu tîm nhw.

PLANT YN PLANNU

Bu rhai o ddisgyblion Ysgol Dolbadarn, Llanberis, yn brysur yn plannu coed yn ddiweddar. Aeth y plant dosbarth Mr Williams i blannu'r coed y tu ôl i Orsaf Rheilffordd y Wyddfa gyda grŵp o aelodau'r Gwarchodwyr Cefn Gwlad. Elusen yn ymwneud â'r amgylchedd yw Gwarchodwyr Cefn Gwlad. Cafodd ei sefydlu yn 1959 i roi cyfle i bobl weithio i warchod ein hamgylchedd. Erbyn hyn dyma'r sefydliad mwyaf o'i fath trwy wledydd Prydain. Mae'n gweithredu fel dolen rhwng tirfeddianwyr sy'n dymuno cael gwaith cadwraeth wedi ei wneud a'r nifer o bobl sydd eisiau troi eu diddordeb yn yr amgylchedd yn weithredu ymarferol. Mae gan y mudiad gangen leol ym Mangor, a bu criw o'r gangen honno yn cydweithio â phlant yr ysgol. Yr oedd gohebydd Radio Cymru wedi dod draw hefyd i holi'r plant ar gyfer y rhaglen ysgolion 'Digwydd'. Gall y plant edrych ymlaen at weld y coed yn tyfu yn ystod y blynyddoedd nesaf, a chofio'r bore a dreuliwyd yn helpu i'w plannu. Mae aelodau'r Gwarchodwyr Cefn Gwlad wedi bod yn gwneud gwaith yng ngardd yr Ysgol yn ddiweddar hefyd.



Awen, Mathew Pike, a Caryl yn cael eu holi ar gyfer y rhaglen 'Digwydd', a'u hathro, Mr Bryn Williams, yn gofalu bod pawb yn iawn.

CROESAWU MEDDYG



Dr Alwyn Llewelyn Parry.

Os bu i chi ddarllen colofnau newyddion rhifyn diwethaf yr Eco yn ofalus fe sylwoch bod gair o groeso wedi ei roi i feddyg newydd i'r ardal. Mae'r Dr Alwyn Llewelyn Parry wedi ymuno â phractis meddygon Llanberis a'r cylch fel partner ychwanegol. Mae'n ymuno â'r Dr O. V. Jones, Dr Pamela Jones, Dr Robin Parry a Dr Gwyn Williams. Nid yw'n gwbl ddiarth i'r practis er hynny gan iddo dreulio tri mis yma fel locum yn gynharach eleni yn ystod gwaeledd Dr O. V. Jones. Fe'i maged yn Amlwch wedi i'w deulu symud yno o Ddolgellau. Derbyniodd ei hyfforddiant meddygol yng Nghaerdydd lle cwblhaodd ei gwrs bum mlynedd yn ôl. Ers hynny bu'n gweithio mewn ysbyty yng Nghaerdydd ac yn Ysbyty Gwynedd lle derbyniodd hyfforddiant pellach mewn meddygaeth teulu. Ers mis Ebrill bu'n gweithio fel locum gan dreulio tri mis mewn practis yng Nghaernarfon wedi'r cyfnod yn Llanberis. Mae'n ŵr priod ac yn byw yn Rhiwlas. Mae'n mwynhau cerdded a beicio yn ogystal â chwarae golff. Estynnwn groeso cynnes iddo i'r ardal a gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn ei swydd newydd.

CYFARFOD CYHOEDDUS

Yn sgîl y drafodaeth gafwyd yn yr Eco yn ddiweddar ynghylch y pryder am y gor-yfed ymhlith pobl ifanc yn Llanberis, trefnwyd cyfarfod cyhoeddus ar gyfer **nos Fercher, Ionawr 26, 1994.** Y bwriad yw trafod y ddarpariaeth sydd ar gyfer yr ifanc yn y pentref. Cynhelir y cyfarfod yn **Theatr Gorffwysfa am 7 o'r gloch.** Estynnir gwahoddiad i bawb sydd â diddordeb yn ieuenctid y fro.

ECO'R WYDDFA

Rhif 197
Nadolig 1993 / Ionawr 1994

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (0248) 670115
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWYR
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (674669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
Gareth Williams, Angorfa, Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)
Tony Storey, Awel y Mynydd, Ceunant, Llanrug (650600)
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
TREFNYDD GWERTHIANT
Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (676846)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (0248 670726)
BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (676733)
NANT PERIS: Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, IONAWR 27
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, IONAWR 17
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
CHWEFROR	IONAWR 27	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts	650570
MAWRTH	MAWRTH 3	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 31	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	EBRILL 28	DEINIOLEN	Mr W. O. Williams	871259
MEHEFIN	MAI 26	BRYNREFAIL	Miss Lowri P. Roberts	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 30	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(0248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 8	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 29	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 27	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	RHAGFYR 1	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

Llythyrau

Diolch i'r Côr

Annwyl ddarllenwyr,

Ar ran Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn 1995, carwn ddiolch yn fawr iawn i Gôr Meibion Dyffryn Peris am roi noson arbennig o ddifyr ac amrywiol i ni yng Ngwesty Abaty Rhos, Llandrillo yn Rhos, yn ddiweddar. Noson stormus y tu allan ond yn bleserus tu hwnt y tu mewn!

Clywais y côr gyntaf dair blynedd yn ôl yn Llanberis o dan ofal Mr John H. Hughes, ac fel y tybiwn bryd hynny maent wedi mynd o nerth i nerth a datblygu'n gôr ardderchog.

Diolch i'r hogia am roi eu gwasanaeth yn ddi-dâl, i Arwel am arwain y côr yn ei ffordd ddihafal, i Hefina am gyfeilio'n benigamp ac i Robin am arwain y noson mor hamddenol.

Gobeithio y gwelwn lu ohonoch yn y steddfod, bydd croeso mawr yn eich aros. Pwy ŵyr, efallai mai Côr Meibion Dyffryn Peris fydd ar y brig!

Cyfarchion y tymor i bawb dwi'n ei adnabod ym mro'r Eco.

Diolch yn fawr.

ELUNED JONES
Rhiwen, 351 Ffordd Conwy,
Mochdre, Bae Colwyn
(gynt o Stryd Siarlot, Llanberis)

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL PLAS GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle.
Prisiau rhesymol.
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid lleol.

Ar ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (0286) 672619
Richard S. Humphreys
Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda

ADUNIAD CYN-DDISGYBLION YSGOL RHIWLAS

Darn o wylltion afonydd,
Dolydd a gweunydd a gwŷdd
A goludog aelwydydd.

Daear a dwylo diwyd
Erwau'n hiaith, a'n gwaith a'n hud
Hon a biau ein bywyd.

A dyna a olygai Rhiwlas o blwyf Llanddeiniolen i'r hanner cant o Riwlasiaid a ddaeth i Westy'r Anglesey, Porthaethwy, ar Dachwedd 12fed, am 7.30 p.m.

Sôn am gofleidio, cyfarch a chyfeddach! Teithiodd amryw o bellter — o Gaerdydd, Lerpwl, Blaenau Ffestiniog, Pwllheli a Chaergybi. Oedd, roedd rhywun o bob pentref bron ym mro'r Eco yno hefyd. Pawb wedi dod, 'Yn ôl i'w cynefin gynt / Â'u dychymyg yn drên.'

Ar dafod leferydd lluniwyd *Hen Atgofion II* o fewn ychydig oriau y noson arbennig hon. Megis seren wib fflachiodd ein meddyliau i lawr llwybrau atgofion gan gychwyn o Lôn Bach Awyr i ben Moel y Ci a Maes Meddygon, heibio Cae Mawr, a hynny'n reit sydyn. Hyfryd oedd arogl yr ysgubau yng nghaeau fferm Carreg y Garth a rhamant i blentyn oedd gwylio John yn llenwi'r bwcedi â'r diferion llaeth, a llygaid duon Seren a Blacan yn serennu arnom. Y fonllef o chwerthin wrth i un gofio amdano'i hun yn godro un o'r gwartheg er mwyn cael hufen ar ei fefus, a ddwynodd o ardd rhywun — ni flasodd fefus poeth byth wedyn!

Cyn bod sôn am Ganolfan Hamdden na Phwll Nofio Bangor creu ein pwll nofio ein hunain a wnaem ni yn 'Rochfa — 'stachu i wneud argae er mwyn crynhoi'r dŵr yn bwll bychan carregog a mwdlyd, ac yna cogio nofio. A beth oedd y wisg nofio medde chi?

Paradwys y plant oedd llecyn o'r enw 'Graig'. Yno y treuliodd cenedlaethau o blant oriau diddan yn sglefrio ar Graig Fawr a Chraig Fach a dringo, cwymp a goresgyn, ac yna gorffwys ar Gadair Nain a Taid gan ryfeddu at yr olygfa o'n blaenau — o'r Eifl hyd at gyrrion y Gogarth gyda Môn yn ein cofleidio.

Cymdeithas glós y capeli a gawsom, tri chapel ac eglwys, pedair Ysgol Sul, Gobeithlu llewyrchus gyda gwirfoddolwyr ymroddgar, amyneddgar a charedig. Mae ein dyled iddynt yn amhrisiadwy.

Er na chlywyd am y Cwricwlwm Cenedlaethol bondigrybwyll yn yr ysgol fechan yn y wlad, fe brofodd y mwyafrif ohonom addysg werthfawr a hynny drwy gyfrwng ein mamiaith. Onid plant ysgol Rhiwlas oedd yr ychydig rai a wyddai eu tablau ar eu cof yn y Gymraeg yr adeg honno? Do, fe'n trwythwyd mewn iaith, mathemateg, gwyddoniaeth ac yn sicr y dyniaethau â'n halawon a'n hwiangerddi a'n storîau gwerin.

Bu nifer ohonom yn cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd ac eisteddfodau deuddydd y pentref. Sawl tro y bu rhaid i hyfforddwyr rhoi'r ffidil yn y to hefo amryw ohonom wrth ymarfer y partion canu ac adrodd?

Testun diolch a llawenydd oedd ar leferydd pawb y noson hon — diolch am y cyfoeth o brofiadau a gynigiodd y pentref bychan hwn yng nghesail y mynyddoedd.

Diolch Menai am wneud y trefniadau ac am sicrhau noson fythgofiadwy. Gobeithir cael aduniad eto yn fuan a hynny yn yr *Institiwt*. Prysured y dydd canys,

'Difyr a diddan fu'n horiau i gyd,'
Yn un o'r pentrefi *gorau'n y byd.'*

Y CLOC

(Derbyniwyd yr atgof hwn oddi wrth Mrs D. M. Jones, 17 Fflatiau Lôn y Bryn, Caernarfon, a fu'n aros yn y Foelas yn Llanrug am fwy na blwyddyn.)

Un gaeaf oer ofnadwy, a mam a nhad yn byw yn Clwt-y-bont, roedd wedi rhewi'n ofnadwy. Roedd y cloc larwm ar y silff ben tân wedi stopio, ac yn cau mynd. Roedd ganddynt grât chatanet. Mi roddodd mam 'oil' i'r cloc, ond dal i gau mynd yr oedd. A dyna mam yn rhoi'r cloc yn y popty yn y grât chatanet. Daeth fy nhad adref o chwarel Dinorwig a dyna fo'n gofyn i mam, 'Lle mae'r cloc?' 'Yn y popty,' meddai hi. 'O!' medda nhad, 'dyna ydi fy swpar chwarel i fi heno?'

Mae yr hen gloc gennyf o hyd ac mae'n dal i fynd. Ond dim ond ar ei wyneb i lawr y mae'n mynd, ac mae ei wyneb yn lliw 'oil' o hyd. Ond mae yn werth y byd i mi er hynny.

CYNLLUN CASETIAU CYMRAEG I'R DEILLION

Tybed a oes gennych ffrind neu aelod o'ch teulu sydd â nam ar ei olwg, ac sydd wedi mynd i fethu â darllen erbyn hyn? Os oes, efallai y gall y Cynllun Casetiau Cymraeg fod o gymorth. Mae llyfrau o bob math ar dâp ar gael yn cynnwys nofelau, straeon byrion, cofiannau, barddoniaeth yn ogystal â phregethau a darlleniadau o'r Beibl.

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall, ond gall eraill sydd heb eu cofrestru dderbyn y casetiau trwy dalu am y cludiant.

I gael rhagor o fanylion am y Cynllun cysylltwch â: **Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, 325 Stryd Fawr, Bangor. Ffôn: (0248) 353604.**

CLWB ERYRI

Ar nos Wener, Rhagfyr 3, diddanwyd cynrychiolaeth deg o'r aelodaeth gan siaradwr y noson, Mr Meurig Evans. Soniodd yn ddifyr am rai o uchelbwyntiau troeon bywyd o ddyddiau ysgol hyd y presennol. Diolchwyd iddo gan Mr Stanley Owen.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Ionawr 7, 1994, eto yng Ngwesty Erw Fair, Llanberis, am 7.30 o'r gloch, pryd y ceir anerchiad gan Mr Gwyn Hefin Jones, gyda Mr Cledwyn Pritchard Jones yn y gadair.

Cyn cloi, llongyfarchwyd bardd y Clwb, Mr R. Gwynn Davies, ar ei gamp yn cipio cadair Eisteddfod Dyffryn Ogwen â chlod mawr.

ANTUR PADARN

Gobaith am Gyhoeddi Llyfryn

Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd gan Antur Padarn ar nos Lun, Tachwedd 29ain yn Oriel Eryri, Llanberis, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r syniad o gyhoeddi llyfryn ar lwybrau cyhoeddus amlycaf Dyffryn Padarn. Er bod sawl llyfryn o'r fath ar gael, yn bennaf ar gyfer ymwelwyr, yr oedd y cyfarfod o'r farn bod lle i lyfryn a fyddai yn gyfrwng i ddenu mwy o Gymry lleol i ymddiddori mewn cerdded a gwarchod llwybrau cyhoeddus y Dyffryn. Mynegwyd y farn y dylai mapiau yn dangos llwybrau cyhoeddus yr ardal gael eu harddangos mewn mannau cyhoeddus fel ysgolion a chanolfannau lleol, ac ati. Yr oedd teimlad mai ychydig iawn o bobl leol sydd yn cerdded y llwybrau, ac mai un rheswm am hynny o bosibl yw bod anwybodaeth am eu bodolaeth. Beth bynnag, ar ddiwedd y noson penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus pellach yn y flwyddyn newydd. Bydd mwy o fanylion am hyn yn ymddangos yn y wasg leol yn ystod yr wythnosau nesaf. Profodd yn gyfarfod cyhoeddus diddorol dros ben a diolchodd Mr Glyn Tomos, Cadeirydd Antur Padarn, i bawb am eu presenoldeb ac i Dr Dafydd Roberts, Pennaeth Amgueddfa'r Gogledd, am ganiatâd i gynnal y cyfarfod yn yr Oriel.

Arolwg o Fusnesau Bychain

Mewn cyfarfod o'r Antur a gynhaliwyd ar nos Iau, Rhagfyr 9fed, penderfynwyd symud ymlaen i wneud arolwg o fusnesau bychain Dyffryn Padarn. Bwriad arolwg o'r fath fydd ceisio dod i gysylltiad â busnesau sydd yn cyflogi dau neu dri o bobl a cheisio gweld os oes modd cydweithio er mwyn cynnig cefnogaeth ymarferol iddynt. Ceisir darganfod pa wasanaethau fuasent yn eu defnyddio er mwyn hwyluso eu busnes pe baent ar gael yn lleol. Felly, os oes unrhyw un sydd yn cynnal busnes â diddordeb mewn arolwg o'r fath, bydd Antur Padarn yn falch o glywed ganddynt. Dylid cysylltu â Glyn Tomos (Cadeirydd), Pen y Bwlch, Dinorwig, Caernarfon.

Diolch i'r Cynghorau Cymuned

Yn yr un cyfarfod nodwyd bod Cynghorau Cymuned Llanrug a Llanddeiniolen wedi penderfynu estyn cymorth ariannol hael i'r Antur. Hefyd deellir bod cefnogaeth debyg i ddod oddi wrth Gyngor Cymuned Llaneris. Mae hyn yn hynod o galonogol ac yn hwb aruthrol i waith yr Antur. Diolch i'r tri Chyngor am eu cefnogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac edrychir ymlaen at gydweithredu yn llawn â hwy eto yn y flwyddyn newydd.

Angen Trysorydd Newydd

Gan fod Mr Gwilym Evans yn dymuno ymryddhau o'r gwaith mae'r Antur yn chwilio am drysorydd newydd. Wrth ddiolch i Gwilym am ei gyfraniad pwysig iawn dros y blynyddoedd diwethaf (gyda llaw, mae yn parhau i fod yn aelod o'r Antur) mawr obeithiwn y daw rhywun arall ymlaen i ymgymeryd â'r swydd. Beth amdani? Cysylltwch â'r Cadeirydd os gallwch weld y ffordd yn glir i weithredu yn ymarferol dros yr Antur a'r Dyffryn.

Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar nos Iau, Chwefror 10fed, yn Ystafell Gymuned, Ysgol Gynradd Penisarwaun, am 7 o'r gloch. Fel arfer, mae croeso i unrhyw un ddod i'r cyfarfod.

CAROL 1993

Pan fydd haul yn machlud heno
  Gwelir Seren fry'n y nen'
Fu o'r golwg pan oedd heulwen
  Yn disgleirio uwch dy ben.
Seren oedd yn dal i weithio
  Trwy dywyllwch gwlad oedd bell
Dal i weithio a goleuo —
  Nid oedd unman orchwyl well.

Seren Bethle'm, Seren Cariad,
  Ddaw a neges wiw i ddyn,
Mae'n disgleirio trwy y gofod
  A diddiwedd yw ei swyn.
Roedd uwchben y crud ym Methle'm,
  Yn nhywyllwch croes a'i loes.
Ond mor ddal yw dyn i'r Gallu —
  Egni Cariad trwy bob oes.

Tra 'rym ni yn dawel gysgu
  Wele'r Seren wrth ei gwaith.
Yn cynhyrchu Cariad dwyfol
  I'n goleuo ar ein taith.
Os bydd ambell gwmwl tywyll
  Rhyngom ni a'r Seren wiw
Gwyddom fod y Gallu yna,
  Seren Cariad, Seren Duw.

DILYS BAYLIS



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Rheolwyr a Staff





DPC®

EURO-DPC CYF
GLYN RHONWY, LLANBERIS
(0286) 871802

Gelli Gyffwrdd
The Greenwood Centre
(0248) 671493

AR AGOR DRWY'R FLWYDDYN

yn cynnwys gwyliau ysgol y Nadolig (ac eithrio Dydd Nadolig a Dydd Gŵyl San Steffan)
AR AGOR 11 – 4.30

Dewch â'r plant i'w helpu i fwynhau'r gwyliau

Canfyddwch eich presant 'Dolig funud olaf yn ein Siop Anrhegion

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

GWASANAETH
DEINTYDDOL
O DAN Y GWASANAETH IECHYD
DYLAN THOMAS
B.D.S. (Cymru), DEINTYDD
Y DDEINTYDDFA
39 STRYD Y CAPEL, CAERNARFON
Ffôn: (0286) 672914

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Fel rhan o'u thema am 'Ynni' aeth plant Bl. 5 a 6 i ymweld â'r Orsaf Drydan yn Ninorwig yn ddiweddar. Ar ddechrau'r ymweliad cafwyd cyfle i weld fideo yn yr Amgueddfa yn Llanberis, yn egluro sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu, a'r defnydd a wneir ohono.

Yna i ffwrdd â ni yn y bws bach i grombil y Mynydd Trydan — a phawb yn gwisgo eu helmedau caled. Cawsom ein tywys o amgylch y gwahanol siambrau a phwrpas pob peiriant yn cael ei egluro i ni. Wedyn, eto yng nghanol y mynydd, cawsom weld fideo arall a hon eto yn ymdrin â thrydan. I gloi, cawsom ddychwelyd i'r Amgueddfa i weld y gwahanol arddangosfeydd sy'n delio â thrydan. Cafodd pawb bamffled yn esbonio gwaith yr Orsaf i fynd yn ôl i'r ysgol gyda nhw, ac fe gyflwynwyd siart lliw yn anrheg i'r ysgol. Diolchir i bawb a drefnodd yr ymweliad, am ein hebrwng mor ddiddorol a gofalus trwy'r mynydd, ac am ein croesawu mor gynnes.

Yn ddiweddar aeth holl blant yr ysgol i Theatr Seilo, Caernarfon, i weld pantomeim myfyrwyr Coleg Gwynedd o'r enw 'Un Dyn Bach ar Ôl'. Cafodd pawb fwynhad mawr o'i weld a dymunir llongyfarch pawb a fu'n gysylltiedig â'r panto am eu gwaith.

Ar ôl hir baratoi, cymerodd y plant hynaf ran yng nghystadleuaeth llyfrau y llyfrgell. Ar hyn o bryd rydym yn aros i Mr Hywel Jones ymweld â ni i holi'r plant ar gynnwys eu llyfrau, sef *Dyfal Donc Endaf* a *Delyth a'r Tai Haf.* Pob lwc i'r ymgeiswyr.

Ar Ragfyr 15fed cynhelir ein Gwasanaeth Nadolig. Nid gwasanaeth Nadolig traddodiadol a gawn eleni, ond un ar newydd wedd. Gellir eich sicrhau y byddwch yn ei fwynhau ac nad yw'r naws arferol yn cael ei golli. Gobeithir gwneud fideo o'r gwasanaeth gyda chopi ar gael trwy'r ysgol. Diolchir i bawb sydd wedi ein cynorthwyo i baratoi y gwasanaeth mewn sawl gwahanol ffyrdd. Mae cyfraniad pob un ohonynt yr un mor werthfawr a'n dyled ninnau iddynt yn un fawr. Bwriedir gwneud casgliad i Uned Haematoleg Ysbyty Gwynedd ar derfyn y gwasanaeth.

Cynhaliodd y Cyfeillion Ffair Nadolig yn neuadd yr ysgol yn ddiweddar, i godi arian ar gyfer prynu offer i'r ysgol. Cafwyd noson arbennig o dda gyda'r neuadd o dan ei sang gyda rhieni, plant a chyfeillion o'r pentref. Ar ddiwedd y noson cynhaliwyd arwerthiant gan Mr Eifion Harding, cadeirydd y llywodraethwyr, i chwyddo'r coffrau ymhellach. Ein diolch i bawb a gymerodd ran i'n cynorthwyo ar y noson.

Ar ddydd Gwener olaf y tymor fe fydd Anti Janice a holl staff y gegin yn paratoi y cinio Nadolig. Mawr yw'r edrych ymlaen am y diwrnod yma, ac mae'r neuadd eisoes wedi ei haddurno ar gyfer y wledd. Ar ran y plant a'r staff diolchir i Anti Janice a holl staff y gegin am eu gofal drosom ar hyd y flwyddyn a'u parodrwydd i'n cefnogi a'n cynorthwyo ar bob achlysur.

I gloi'r tymor fe fydd y Cyfeillion yn darparu te parti i'r plant. Eto mae edrych ymlaen mawr am y diwrnod yma, a'n diolch iddynt hwythau hefyd am eu gwaith diflino a'u cefnogaeth ar hyd y flwyddyn. Mae ambell un yn dweud fod ymwelydd arbennig gyda sach ar ei gefn am droi i mewn i'r parti. Fe gawn ni weld.

Gyda diwedd y tymor fe ddaw cyfnod ymarfer dysgu Miss Siân Eleri Thomas a Miss Debbie Williams o'r Coleg Normal i ben. Bu'n bleser croesawu'r ddwy i'n plith a gobeithiwn yn fawr iawn eu bod wedi mwynhau eu hymarfer dysgu ym Mhenisarwaun. Llongyfarchir y ddwy am eu llwyddiant a diolch iddynt am eu gwaith caled a'u gofal o'r plant yn ystod y cyfnod yma. Mawr obeithiwn y bydd swydd yn eu haros ym mis Medi 1994.

Cyfeillion yr Ysgol: Gwnaed elw sylweddol iawn yn y Ffair Nadolig a gynhaliwyd yn y neuadd. Diolchir i bawb fu'n gwerthu a phrynu a diolchir i'r rhai fu'n brysur yn y gegin yn gwerthu'r te a'r mins peis. Dymunir diolch i bawb am y gefnogaeth gref drwy'r flwyddyn.

Ysgol Sul Bosra: Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig gan aelodau ifanc yr Ysgol Sul ar bnawn Sul, Rhagfyr 17, am 2 p.m. Er mai ifanc iawn yw y rhan fwyaf o'r aelodau cyflwynwyd stori 'Iesu a'r Pry' Copyn', yn hynod o ddiddorol ganddynt. Dyfalbarhau nes llwyddo oedd y wers, dyfalbarhau i ledaenu'r stori am 'Frenin yr holl fyd'.

Eglwys Santes Helen: Rhagfyr 19 am 2 o'r gloch cynhaliwyd Naw Llith a Charol, gydag aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan. Thema'r plant oedd 'Y Di-gartref'. Yn ddi-gartref y daeth Iesu, bron i ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ac felly yw hanes miloedd o drueiniaid ein byd heddiw. Wedi'r gwasanaeth cafwyd cyfle i gael sgwrs dros baned o de a mins pei yn Neuadd yr Eglwys.

Rhagfyr 25ain, dydd Nadolig, gweinyddir y Cymun Bendigaid am 8.30 a.m. gan y Parchg Tegid Roberts. Ni chynhelir gwasanaeth ddydd Sant Steffan, Rhagfyr 26.

Cyflwynwyd llun i'r Parchg Tegid Roberts gan aelodau'r Ysgol Sul ar achlysur ei sefydlu yn glerig mewn gofal ym mhlwyf Llandinorwig a Phenisarwawun. Dymunir pob bendith iddo yn y gwaith.



Aelodau Ysgol Sul Santes Helen yn cyflwyno llun i'r Parchg Tegid Roberts ar achlysur ei sefydlu yn gleric mewn gofal o'r plwyf.

Parti Nadolig yr Ysgolion Sul: Cynhaliwyd Parti Nadolig aelodau Ysgol Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen bnawn Mercher, Rhagfyr 22 am 3.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys. Diolchir i Siôn Corn am alw i'n gweld a chyflwyno anrheg a ffrwythau iddynt. Diolchir i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd at y parti.

Urdd Adran Bentref: Daeth y tymor i ben gyda pharti a disgo yn y neuadd. Bydd amrywiol weithgareddau i'w cynnal y tymor nesaf hefyd.

Pwyllgor Neuadd: Gyda Tlws Billiards y pentref i'w harddangos yn yr Ystafell Gymuned, gobeithir yn arw iawn ail gynnau'r diddordeb. Y mae aelodau'r pwyllgor yn awyddus i brynu bwrdd ar gyfer yr ifanc. Os oes rhywun yn gwybod am fargen cysyllter ag unrhyw un o aelodau'r pwyllgor, os gwelwch yn dda.


Tynnwyd Clwb Cant am fis Tachwedd yn yr Ystafell Gymuned, a'r enillwyr oedd: 1, Leslie Jones, Meillionnydd; 2, G. Jones, 25 Bryntirion; 3, J. O. Jones, 21 Bryntirion. Tynnir Clwb Cant Rhagfyr ar nos Fawrth, Rhagfyr 22ain, wedi i'r aelodau'r pwyllgor orffen canu carolau o amgylch y pentref. Gobeithir trefnu cyngerdd gyda Hogia'r Wyddfa yn fuan yn y gwanwyn.

Dymunir diolch i bawb a gefnogodd yr amrywiol weithgareddau drwy 1993 a diolchir i aelodau'r Clwb Cant am eu ffyddlondeb. Gobeithir y cawn yr un gefnogaeth yn 1994. Diolch yn fawr i chwi oll.

Cynrychioli Cymru: Llongyfarchiadau i Len Porter ar gael ei ddewis i fod yn un o gynrychiolwyr Cymru mewn arddangosfa Geltaidd yn Catalonia. Y mae Len yn arbenigwr ar wneud ffyn ac mae wyth o'i ffyn eisoes i'w gweld yn yr arddangosfa, a hynny tan mis Ionawr. Y maent yno i hybu crefftau Cymru. Llongyfarchiadau mawr Len.

Gwellhad: Y mae'r dwymyn wedi ymosod yn go ffyrnig y gaeaf yma. Gobeithio fod pawb yn gwella a ninnau ar drothwy'r Nadolig. Gobeithio fod Haydn Jones, Bryntirion, yn cael llonydd gan yr asthma, gorfu iddo fynd am driniaeth i'r ysbyty yn ddiweddar. Cymer ofal Haydn.

Dymunir Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.



Len Porter fydd yn cynrychioli Cymru mewn arddangosfa Geltaidd yn Catalonia.

ETO AR Y BRIG!



O'r chwith i'r dde: Dyfan Siôn, Isgoed Williams, Jerome Moran, Michael Moran ac Osian Dafydd Evans.

Mae Ysgol Brynrefail wedi ennill cystadleuaeth Defnyddwyr Ifanc y Flwyddyn Sir Gwynedd am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Trefnir y gystadleuaeth gan Adran Safonau Masnach y Cyngor Sir ac yn y ffeinal roeddynt yn cystadlu yn erbyn timau o Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda ac Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â Gwybodaeth Gyffredinol a'r Ddeddf mewn perthynas â Bwyd a Diod, Yr Amgylched a Diogelwch, Teithio a Iechyd, Arian a Chredyd.

Bydd tîm Ysgol Brynrefail yn awr yn cynrychioli'r Sir yn ffeinal Cymru a gynhelir eleni ar garreg eu drws yng Nghaernarfon. Bydd enillwyr Cymru'n symud yn eu blaen i'r ffeinal Brydeinig yn Brighton. Efallai y cofia darllenwyr yr Eco i ddau elod o dîm diwethaf Ysgol Brynrefail gael eu hedfan i ffeinal Brydeinig 1993 yng Nghaeredin. Wedi iddynt ennill Pencampwriaeth Cymru cawsant fod dyddiad y ffeinal yn gwrthdaro ag arholiadau lefel-A. Ond daeth nifer o fusnesau'r cylch a'r Cyngor Sir i'r adwy i'w hedfan yno mewn pryd ar ôl sefyll yr arholiadau.

Mae'r efeilliaid Moran o Lanberis yn parhau'n aelodau o'r tîm ynghyd â Dyfan Siôn o Ddeiniolen ac Osian Dafydd Evans o Benisarwaun. Fe'u gwelir yn y llun yn derbyn Tlws Enillwyr Gwynedd oddi wrth y Cynghorydd J. Isgoed Williams, Is-gadeirydd Pwyllgor Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Gwynedd.

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
BARRY'S GLASS
Camelot, Penisarwaun
Am eich holl anghenion gwydro, y prisiau gorau — GARANTÎD

ERIC JONES
PENISARWAUN
FFON: 872421
★ Prisiau rhesymol
★ Spreio tu mewn a thu allan
★ Estimates am ddim
PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDEDWYDD I CHI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aled Jones
Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio
4 Bryn Eglwys Penisarwaun
Ffôn: Llanberis 871047

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Alwyn a Sarah Jones
RACCA
PENISARWAUN
★ Dewis da o drefniadau blodau sych
★ Trefiniadau blodau ffres
★ 'Wreaths' celyn yn arbennig ar gyfer y 'Dolig
★ Coed Nadolig
Galwch neu ffoniwch **870605** am fanylion

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
Aled Jones
Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio
4 Bryn Eglwys Penisarwaun
Ffôn: Llanberis 871047

Mae
Michael a Barbara
Swyddfa'r Post a SIOP GRON
PENISARWAUN
Ffôn: 871272
yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Teulu Jordan, Staff a Phreswylwyr
CARTREF NYRSIO PENISARWAUN
Ffôn: (0286) 872038

GERDDI GLASCOED
Ger Capel Glascoed
PENISARWAUN
Rwan yw'r amser i blannu coed, bylbiau a llwyni
Galwch heibio neu ffoniwch
870453
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda

CYFARCHION NADOLIG

LLANRUG

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon.

673513

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi

CORGI GAS IN SAFE HANDS

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn: C'fon: 675754

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

673574

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Bryn a Kathleen

Am eich **ANGHENION ADEILADU** mawr a bach **MASNACHWYR A "D.I.Y."** am **BRISIAU CYSTADLEUOL**



BRYN

(B & K Williams)

Yr Hen Ysgol Glanmoelyn LLANRUG

Ffôn: 677482

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÅR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 672898 (dydd)
Caernarfon 676285 (nos)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth



Richard , Meirwen a Carolyn

Y STORFA LLANRUG

Ffôn: Caernarfon: 672790

Diolch i chi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Danfonir eich neges am ddim at eich drws (ardal Llanrug); Ffrwythau, Llysiau, Blodau, Nwyddau ac ati



Y Nadolig hwn defnyddiwch

CABS LLANRUG



Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

C'FON 675951

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon Morris a holl staff



BYSIAU ARFON

LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Merched y Wawr: Nos Fawrth, Rhagfyr 7fed, aeth criw o tua 25 o aelodau'r gangen i ddathlu'r Nadolig ym Mryn Eisteddfod, Clynnog. Er gwaetha'r tywydd oer roedd yn gynnes a chlyd tu mewn a'r cinio yn flasus tu hwnt.

Diolchodd Meryl Green, yr Islywydd i Gwenda a Carys am wneud y trefniadau. Dymunwyd hwyl yr Ŵyl i bawb ac anfonwyd cofion annwyl at yr aelodau na allent ymuno â ni oherwydd gwaeledd.

Hyderir y gwelir pawb yng nghyfarfod cyntaf 1994 ar Ionawr 11, pryd y ceir 'Cymorth Cyntaf' gyda Bernard Jones.

Llongyfarchiadau i Nicky Cropper, 3 Bro Rhuddallt, ar ddathlu ei benblwydd yn 21ain ar Ionawr 3, 1994.

Cydymdeimlwn â Mr Eifion Roberts, 12 Nant y Glyn, ar golli ei frawd, Llew Roberts, y Fali, Môn.

Plaid Cymru: Cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus yn yr Ysgol Gynradd ar nos Fercher, Rhagfyr 1. Croesawyd y wraig wadd, Mrs Enid Whiteside Thomas, gan Phyllis Ellis a chyflwynwyd basged o flodau iddi gan Ceri Parry Jones. Enillwyr y raffl oedd — 1, Caryl Jones; 2, Vera Jones; 3, Enid Roberts, Pendalar; 4, Megan Roberts, Gregynog; 5, Dafydd Williams, Ceunant; 6, 60 Cae Mur, Caernarfon; 7, Kelly Jones.

Roedd Haf Thomas, Buarthau, wedi gwneud a chyflwyno dol ar gyfer cystadleuaeth a dyfalwyd ei henw yn gywir gan Caren Evans. Eto, eleni roedd Siôn Corn yn falch o weld plant da yn Llanrug ac yn addo dod i dŷ pob un ohonynt ar noswyl Nadolig.



Mrs Enid Whiteside Thomas, y wraig wadd yn Ffair Nadolig Plaid Cymru.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Brifathro, merched y gegin a gofalwraig yr Ysgol am eu help a'u hynawsedd gyda threfniadau'r ffair. Diolch i bawb fu'n gweithio ar y noson, y rhai a roddodd nwyddau i'r stondinau, rhoddion i'r raffl a'r gwobrau, a chyfraniadau ariannol. Ac yn olaf, diolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth arferol.

Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr yw: 1, Helen Parry Ceunant; 2, Eirwen Gwynn, Tal-y-bont, Dyfed.

Bydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn y Sefydliad Coffa, nos Fercher, Ionawr 12, 1994, pan fydd Evan Parry, Ceunant, yn dweud hanes ei daith i Batagonia.

Anfonwn ein cofion at aelodau sydd wedi bod yn cwyno, a'n cydymdeimlad â'r rhai gafodd brofedigaeth yn ddiweddar.

Dymunwn Nadolig Llawen i'n holl aelodau a chyfeillion ac edrychwn ymlaen at eich gweld yng nghyfarfod y gangen ar Ionawr 12.

Diolch: Dymuna Mrs Hughes a'r teulu, 17 Hafan Elan, ddiolch i bawb a gyfranodd mor hael at Blant Mewn Angen i goffáu ei diweddar ŵr.

Diolch: Dymuna Mair, Tom a Raymond ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, llythyrau a galwadau ffôn a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Hefyd diolchir am y rhoddion o £370 tuag at Gronfa'r Deillion.

Ysgol Gynradd Llanrug: Dydd Gwener, Rhagfyr 10, aeth blwyddyn 5 ar ymweliad â'r Orsaf Dân yng Nghaernarfon i gloi eu thema am y tymor hwn — 'Tân'. Cafwyd croeso yno a phawb o'r plant wedi mwynhau eu hunain.

Bu cyngerdd y babanod 'Tyfu Fyny' a'r sioe gerdd 'Branwen' yn llwyddiant mawr. Diolch i'r plant am wneud eu gwaith mor rhagorol unwaith eto ac i bawb am y gefnogaeth.

Nid yn aml mae rhywun yn gweld sioe jyglo a champau yn fyw ond dyna ddaeth draw i'r ysgol yn ddiweddar — y Duo Delmarr. Roedd y plant wedi eu swyno ac ambell un yn fodlon mentro ar y campau.



Tîm nofio'r Ysgol a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Genedlaethol yr Urdd ym Mangor.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i'r nofwyr aeth draw i Fangor i gystadlu yn y Bencampwriaeth Genedlaethol. Gwnaeth pawb eu gorau glas a llongyfarchiadau i dîm ras cyfnewid y genethod dan 12 oed a gipiodd y wobr gyntaf eto eleni.

Bydd disgo yn yr ysgol nos Lun, Rhagfyr 20, i gloi gweithgareddau'r tymor.

Enillwyr Clwb Cyfeillion mis Rhagfyr: 1, Lynda Jones, Bryn Eden, Llanrug; 2, Rhiannon Ann Evans, 24 Nant y Glyn; 3, Mr a Mrs Idwal Williams, Cefnddwysarn; 4, Sulwen Roberts, Bryn Myfyr, Rhosgadfan; 5, Anwen Evans, Garth Hywel, Penisarwaun.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth y plant, athrawon a holl staff yr ysgol.



Chwilio am fargen yn y Ffair Nadolig.



Pwy enillodd hwn 'sgwn i?

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Penodiad: Llongyfarchiadau i Mr Dafydd Williams, Meini Gleision, ar ei ddyrchafiad i swydd Rheolwr Gweinyddol gyda Banc y National Westminster. Eisoes mae wedi dechrau ar ei waith newydd ym Mhwllheli. Er hyn, mae'r teulu yn falch iawn o gael aros ym Mrynrefail.

Cofion: Anfonwn ein cofion gan ddymuno adferiad buan i Mr Elwyn Jones, 1 Trem Eilian, na fu yn dda ei iechyd yn ddiweddar ac wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Sefydliad y Merched: Nos Wener, Rhagfyr 10fed bu aelodau o'r gangen leol yng Ngwasanaeth Carolau a drefnwyd dan nawdd Sefydliad y Merched Gwyrfai ac a gyfarfu yn Salem, Caernarfon. Cyflwynydd y noson oedd Mrs Pat Parry, Waunfawr. Cafwyd datganiadau ar lafar a chân gan gynrychiolwyr o'r gwahanol ganghennau ynghyd â chanu carolau cynulleidfaol dan arweiniad Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail, gyda Mrs Catherine Jones, Waunfawr, yn cyfeilio.

Nos Lun, Rhagfyr 13eg, dathlodd aelodau Brynrefail y Nadolig gyda chinio yng Ngwesty'r Prince of Wales, Caernarfon, a mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen leol yn y flwyddyn newydd ar Ionawr 17eg.

LINDA MORRIS

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

1 BRYN FEDWEDN, FFORDD YR ORSAF LLANRUG. Ffôn: 678857

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Pwy yw Pwy (o dudalen 11)

Mrs Nellie Hughes, Gwyrfai Terrace, Clwt-y-bont a'i chwaer, Mrs Gracie Thomas, Caernarfon. Efeilliaid wrth gwrs. Prun yw prun tybed. Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus i'r ddwy ohonynt ar y diwrnod mawr.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
JACKIE, DAVE A STAFF
TAFARN
PENBONT
LLANRUG



ADLONIANT NOSWAITH
CYN Y NADOLIG
A NOS CALAN



DIOLCHWN YN GAREDIG IAWN
AM EICH CEFNOGAETH
FLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN
A DYMUNWN FEL TEULU
NADOLIG LLAWEN I CHWI OLL A
DYMUNIADAU GORAU AM Y
FLWYDDYN NEWYDD



SIOP a MODURDY
GROESLON MARC
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 672445

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
CRIB COCH
Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
676772



Trin gwallt i
bawb o'r teulu
gan Jen

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
MECH-A-NICK (NICK WALTON)
4 STAD DDIWYDIANNOL BRYN AFON
CRAWIA, LLANRUG. Ffôn: 674884
TRWSIO CEIR • GWAITH MOT
TWNIO CRYPTON • WELDIO MIG

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
GLYN ROBERTS A'I FAB



DYNION GLO
LLANRUG
Ffôn: 675043 a 672125
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth



Ashley a Carolyn
Wager
A STAFF
SIOP Y BONT
(SNOWDON STORES)
Pontrhythallt
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon 674472

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
Y CO-OP
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 672937

I gael bargen drwy'r flwyddyn ymunwch â'ch Co-op lleol – y siop yr ydych chi'n berchen arni.

Cofiwch fod DIFIDEND O 3c YN Y BUNT i aelodau'r gymdeithas

DIOLCH AM EICH
CEFNOGAETH YN 1993
DYMUNIADAU GORAU
AM 1994

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth
Elaine, Wendy, Vera, Lynette a Sarah
Elaine's
LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR	
Mawrth	9 - 7.00
Mercher	9- 5.30
Iau	9 - 8
Gwener	9 - 8
Sadwrn	7.30 - 2

Dydd Mawrth a Dydd Mercher i bensiynwyr

Nos Fawrth i ddynion

Coluro ar gyfer achlysuron arbennig

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
JONES A PITTS
PEIRIANWYR MECANYDDOL
Arbenigwyr mewn pob math o waith metel



GWAITH BRYN AFON
LLANRUG

FACHWEN

Aduniad Hapus a Chofiadwy: Ddydd Mawrth, Tachwedd 23ain, cyfarfu rhai teuluoedd oedd yn byw yn ardal Fachwen dros hanner canrif yn ôl, a'u ffrindiau (ac a elwid yn 'Griw Fachwen') yn nhŷ y westwraig, Margaret Roberts, Rhedynog, Lôn Bethel, Caernarfon.

Un o'r aelwydydd mwyaf adnabyddus a chroesawgar yr adeg hynny oedd Penbryn, Fachwen, cartref Mr a Mrs John Roberts a'u pum mab, Ioan, Tom, Emrys, Elfed, Alun, a'u hunig ferch Maggie, sef Mrs Margaret Lloyd Jones, sydd yn awr yng nghartref St Teilo, Bethel. Cofir rhai o'r meibion fel bwtsieriaid poblogaidd yn ardal Fachwen a'r cylch am flynyddoedd lawer. Erbyn heddiw, dim ond y ferch, Maggie (sydd bellach dros ei phedwarugain oed) a'i brawd Alun sydd yn fyw. Yr oedd y ddau yn bresennol yn yr aduniad, ynghyd â Dafydd Lloyd Jones, gŵr Maggie. Yn nhŷ Margaret, merch y diweddar Ioan Roberts, y bu'r aduniad cyfeillgar yma. Mwynhawyd lluniaeth ardderchog gan y ffrindiau, a baratowyd gan Margaret a'i chyfnietherod, Lowri, merch y diweddar Elfed Roberts, sydd yn byw ym Mrynrefail; a Ceinwen sydd yn byw ym Mhorthaethwy (chwaer i'r diweddar John Morris, Aberdaron). Hefyd yn bresennol roedd Olwen Thomas, Aber, a'i gŵr Griff, y ddau yn eu hwythdegau (cofnodir mai Maggie oedd morwyn briodas Olwen a Griff), a Norman Williams, Llangefni, a dreuliodd lawer o'i wyliau ysgol a choleg yng nghwmni cartrefol a cherddorol teulu Penbryn.

Treuliwyd gweddill y pnawn yn dwyn atgofion difyr o'r gorffennol, ynghyd â rhai troeon trwstan hefyd. Buom yn byseddu drwy dri albwm o luniau o'r cyfnod roedd Margaret wedi'u casglu. Yn eu mysg roedd lluniau o gynhaeaf ŷdwair fel a geid yn yr hen ddyddiau, a lluniau o'r ceir cyntaf ddaeth i'r Fachwen.

'Roedd Alun yn ei afiaeth, a'i chwerthiniad iach yn diasbedain drwy'r tŷ i gyd. Ie, pnawn cofiadwy, rhwng hen gyfeillion, yng ngwir ystyr y gair, er gwaethaf y tywydd oer, rhewllyd. Ein diolch cywiraf i Margaret am feddwl am yr aduniad arbennig yma. —N.W.—

CINIO NADOLIG OLAF I BENSIYNWYR LLANRUG

Cynhaliwyd Cinio Nadolig Pensiynwyr Llanrug ar nos Fercher, Rhagfyr 8fed, yn yr Ysgol Gynradd. Er gwaethaf y tywydd garw, roedd tua 70 o bobl yn bresennol, ac fel arfer, cafwyd cinio rhagorol wedi ei baratoi gan staff y gegin. Cafodd pawb oedd yn bresennol eu difyrru gan Barti'r Cei, Caernarfon.

Drwg iawn oedd deall ar y noson mai hwn fyddai'r cinio Nadolig olaf o bosibl. Mae'r cinio wedi ei gynnal ers 27 o flynyddoedd bellach, a phob cinio wedi ei roi a'i dalu amdano o Gronfa'r Carnifal. Ni chynhaliwyd Carnifal yn y pentref ers dros bum mlynedd bellach, ac yn naturiol, nid pwrs diwaelod mo'r Gronfa. Eleni, mae'r arian wedi darfod.

Sefydlwyd y Carnifal yn Llanrug gan y diweddar Mr Walter Evans er budd y Clwb Ieuenctid a oedd yn cyfarfod bryd hynny yn hen Ysgol Glanmoelyn. Yno y cynhaliwyd y swper (nid cinio!) cyntaf. Pan symudodd y carnifal i gae chwarae'r pentref, symudodd y cinio hefyd, y tro hwn i festri Capel Mawr. Ers rhyw ugain mlynedd cynhaliwyd y carnifal a'r cinio Nadolig yn yr Ysgol Gynradd.

Dymuna'r trefnwyr ddatgan eu diolch i Brifathro'r Ysgol Gynradd am ganiatâd eleni eto i gynnal y cinio yno; i'r ofalwraig, Helen, ac i holl staff y gegin. Diolch hefyd i staff cegin Ysgol Brynrefail am eu cymorth, ac i Mr a Mrs Stokes (Arvonia) am drefnu bws i gasglu'r pensiynwyr o amgylch y pentref.

Mae llawer yn gofyn am gael carnifal unwaith eto yn y pentref. Beth amdani bentrefwyr? Oes yna rhywun â fentra. Os oes, mae cyngor a chymorth ar gael gan y cyn-bwyllgor, sef Elisabeth, Dilys, Owenna a Morfudd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng



NGHARTREF HENOED

Y Foelas

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: C'fon 674652



THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG

Ffôn: 673366

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn y gwesty

CARTREF PRESWYL
LLYS EIDDON

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

oddi wrth breswylwyr a staff y cartref



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth

BERYL A GWENDA
LLYTHYRDY LLANRUG

Ffôn: C'fon 672422

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
Ysgol Yrru Ofalus
★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112
Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth
Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lwyddiannus i bawb oddi wrth

ELWYN HUGHES
CONTRACTOR
PENNANT
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 672156



Simneau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG
Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 674781

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

PETE (COCH) A LIZ

GLYNTWROG

LLANRUG

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr wyl

DYMUNA


GWYNFA A MARGARET

PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



CYFARCHION Y TYMOR
A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth

NEIL A STAFF

y Siop Sglodion

Pontrhythallt
Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

ARFON A CARYS

SIOP CHIPS
TEGFAN

Y Sgwâr

LLANRUG
676128


GAREJ HAFOD LLANRUG

Ffôn: (0286) 673372

I fynd am dro yn y fro . . .

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth John Trevor a'r teulu
a'r holl staff





PEUGEOT

306

FILLTIROEDD AR Y BLAEN!

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Ebeneser a Chefnywaun: Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul ar bnawn Sul, Rhagfyr 19. Cynhalwiyd gwasanaeth carolau Dosbarth y Chwiorydd yn Afon Goch, nos Iau, Rhagfyr 9. Mwynhawyd swper ardderchog a baratowyd gan Mrs Nest Efans a Mrs Ruth Jones. Diolch am y croeso cynnes.

Cyngor Eglwysig: Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig dan nawdd y Cyngor Eglwysig yn eglwys Llandinorwig, nos Sul, Rhagfyr 19. Cynrychiolwyd holl eglwysi'r pentref yn y cyfarfod a drefnwyd gan Mrs Margaret Griffith. Diolch iddi hi am drefnu ac i bawb a gymerodd ran yn yr oedfa.

Y Gymdeithas Lenyddol: John Ogwen oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Tachwedd y Gymdeithas. Cafwyd ganddo sgwrs hwyliog a diddorol am ei waith fel actor. Mrs Eirlys Williams oedd llywydd y noson.

Coffad: Yn y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yng nghapel Lôn Popty, Bangor, ar Dachwedd 30, cafwyd coffad gan y Parchg John Pritchard i'r diweddar Mr Hugh Emyr Pritchard, Llys Edffrwd, Ffordd Deiniol. Cafodd Mr Emyr Pritchard ei godi'n flaenor yn eglwys Disgwylfa yn 1956, a bu'n organydd yn yr eglwys honno hefyd am dros hanner can mlynedd. Bu'n arweinydd gwerthfawr yno. Yr oedd yn ŵr bonheddig, urddasol yr olwg bob amser, ac yn gymeriad tawel a chadarn. Cydymdeimlir â Mrs Dilys Pritchard a'r meibion, Gwilym a Norman a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Enillwyr Clwb Cant Plaid Cymru am fis Rhagfyr — £10: Mrs M. C. Jones, Tan y Caerau; £5: Miss Olwen Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig.

Marwolaeth: Yn dawel ddydd Llun, 8fed Tachwedd, yn 85 mlwydd oed, bu farw Griffith Thomas Jones gynt o 51 Pentre Helen, priod y ddiweddar Jenny M. Jones. Bu'r angladd ddydd Iau, Tachwedd 11, gyda gwasanaeth yng nghapel Ysgoldy ac yna ym mynwent St. Helen, Penisarwaun.

Dymuna teulu y diweddar Griffith T. Jones ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn eu profedigaeth. Diolch i genod y cymorth cartref, Nellie, Nan, Margaret a Siân am eu gofal o Griff; ac i Miss Ceridwen Foulkes ac i Gwynfor, E. W. Pritchard, Llanberis, am y trefniadau trylwyr.

Diolch: Dymuna Mrs Hugh Emyr Pritchard, Gwilym a Norman, ddiolch i'r teulu oll ac i bobol Deiniolen, ymhell ac agos, am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl. Diolch am y rhoddion, galwadau ffôn, a'r blodau. Diolch i gartref Plas Pengwaith Llanberis am y gofal mawr a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yno. Diolch hefyd i feddygon y teulu am eu gofal; i Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, Caernarfon; i'r rhai fu yn gwasanaethu yn yr angladd; i'r rhai fu yn darparu'r lluniaeth yn y cartref. Mae fy dyled yn fawr iawn i Mrs M. Williams, 6 Ffordd Deiniol, am y gofal a gefais ganddi tra bûm yn fy ngwely pan oedd fy mhriod yn yr ysbyty. Diolch i Mr Myrddyn Pritchard a Gwynfor am ymgymeryd â'r trefniadau. Diolch yn fawr i bawb.

Ysgol Gwaun Gynfi: Cynhaliwyd disgo'r Carnifal yn yr Ysgol nos Wener, Rhagfyr 3ydd. Yr oedd y neuadd yn llawn o blant.

Ar Ragfyr 7fed aethom i Bantomeim ym Methesda a chawsom lawer iawn o hwyl. Rydan ni i gyd wedi bod yn brysur yn dysgu ar gyfer y cyngerdd gafodd ei gynnal pnawn a nos Iau, Rhagfyr 16.

Daeth dwy ymwelydd o Malaysia i weld yr ysgol ddydd Mercher diwethaf.

Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â'r ddwy fyfyrwraig sydd wedi bod hefo ni ers mis. (Adroddiad gan Geraint a Sara).



Pwy yw y ddwy ferch fach yma tybed? Byddant yn dathlu eu penblwydd yn wythdeg (80) ar ddiwrnod Nadolig (gweler tud. 7 am yr ateb.

Lluniau o gyngerdd yr Ysgol



Plant Adran y Babanod yn ystod y Cyngerdd Nadolig yn Ysgol Gwaun Gynfi.



'Heddwch o'r diwedd,' medda Santa, yn y cyflwyniad hwn yng Ngwaun Gynfi.

CHWILOTA

TYMOR Y GWYLIAU



Mae dathlu'r *Gwyliau* wedi bod yn rhan o draddodiadau gwledydd Ewrop ers canrifoedd lawer. Dyma'r cyfnod pan oedd nosweithiau hir y gaeaf yn byrhau a'r dyddiau'n ymestyn. Dyma achos i ddathlu fod y goleuni ar ddod yn ôl i fywydau pobl, a gallent edrych ymlaen am ddyfodiad y gwanwyn. Pan ddaeth Cristnogaeth i orchfygu'r hen baganiaeth, tadogwyd gŵyl geni Crist ar hen ddathliad y goleuni, gan roi arwyddocad arbennig i'r cyfnod. Roedd nifer o draddodiadau a gwyliau yn cael eu cynnal fel rhan o ddathlu'r Gwyliau, yn ymestyn o ganol Rhagfyr i ddiwedd Ionawr. Bellach, mae llawer ohonynt wedi eu colli o lawer ardal, neu wedi eu cymysgu â thraddodiadau eraill.

Doedd dim arwyddocad arbennig i ddydd Nadolig i'r hen Gymry: roedd y Calan, fel i'r Albanwyr, yn llawer pwysicach. Ledled Cymru, golygai'r Nadolig godi'n gynnar i wasanaeth y plygain, fel arfer rhwng 3 a 6 o'r gloch y bore. (Credir i'r enw ddeillio o'r Lladin — *pulli cantus* — caniad y ceiliog.) Byddai'r bobl ifanc fel arfer yn treulio'r noswaith cyn gwasanaeth y plygain yn diddori eu hunain. Un traddodiad a gysylltir â'r amser hwn yw'r tanio torchau o dân a'u cario nôl a blaen hyd strydoedd pentrefi a threfi. Mae cofnodion am hyn yn digwydd yng Nghasllwchwr a Dinbych-y-pysgod yn y de, ac yn Llanfyllin yn y canolbarth. Mae dathliadau tebyg i hyn yn parhau i gael eu cynnal mewn nifer o drefi bychan yr Alban a hefyd yn Allendale, gogledd Lloegr.

Er mai gwasanaeth boreol oedd y plygain, ac er fod rhai offeiriaid yn traddodi pregeth mae'n ymddangos yn ôl cofnodion fod y gwasanaeth yn cael ei gadw mor fyr â phosibl, gan mai prif amcan y gynulleidfa oedd canu carolau. Byddai beirdd lleol yn cyfansoddi carolau newydd i'w canu ar hen alawon traddodiadol. Roedd rhai o'r carolau yn cynnwys deg neu ddeuddeg o benillion, ac mewn rhai gwasanaethau plygain byddai pymtheg neu fwy o garolau yn cael eu canu yn y plygain. Mae cofnod i hyn ddigwydd yn Llanllyfni ar ddechrau'r ganrif hon.

Yn ne Cymru, yn enwedig ym Morgannwg, roedd y capeli hefyd yn cynnal eu gwasanaethau plygain, a'r adeiladau'n cael eu haddurno â chanhwyllau. Ond mae'n ymddangos fod capelwyr y gogledd — siroedd Meirionnydd a Chaernarfon — yn ymuno â'r eglwyswyr yn y gwasanaeth; un o'r cyfnodau prin rheini pan oedd gwahaniaethau crefyddol yn cael eu hanwybyddu.

Roedd gweddill dydd Nadolig yn cael ei dreulio mewn amrywiol weithgareddau: chwarae pêl-droed o rhyw fath, â'r gêm yn mynd ymlaen nes ei bod yn rhy dywyll i chwarae. Roedd hela hefyd yn boblogaidd — cwningod fel arfer, er fod rhai ardaloedd yn hela wiwerod! Credai rhai fod ganddynt yr hawl i gario gwn a hela cwningen ar dir unrhyw un ar ddiwrnod Nadolig.

Yn raddol dechreuwyd troi'r Nadolig yn ŵyl fasnachol. Anfonwyd y cardiau cyntaf yn 1843, ac yr oedd datblygiad y rheilffyrdd a'r post ceiniog yn ei gwneud yn hawdd iawn i bawb ymuno yn y 'traddodiad' newydd. Yn ddiweddarach dechreuwyd addurno'r cardiau, ac yna addurno'r tŷ, gan gynnwys y goeden bondigrybwyll. Diflannodd yr hen Nadolig, a daeth y Nadolig newydd 'hen ffasiwn' i fodolaeth.

* * * *

Priodas Gyntaf Capel y Glasgoed

Daeth llythyr i law gan Mr Idris Owen o Minffordd, Penisarwaun, ynglŷn â'r briodas. Ei daid (tad ei dad) oedd William Owen, brodor o Drefarthen, Môn, yn wreiddiol, ac wedi dod i'r ardal i weithio'n y chwarel. Priododd â Catherine, merch Pant Afon, Penisarwaen. Cred Mr Owen iddo fyw yn Craig Dinas (Stabla) am beth amser, ond *'yr oedd yn un o saith a ymunodd â'i gilydd i adeiladu rhes tai Bryn Hyfryd, Penisarwaen, a bu'n byw yn y seithfed tŷ am weddill ei oes. Roedd yn flaenor yn y Glasgoed hyd ei farw.'* Mae Mr Owen yn adrodd hefyd fod ei nain (mam ei fam) yn gweini gyda William Rice Whiteside yn Gorffwysfa, Penisarwaen, nes iddi briodi Owen Jones, Minffordd. Llawer o ddiolch i chi Mr Owen am ymateb mor fuan i'r cais.

* * * *

Cyfarfod Gwobrwyo Ysgol Sir Llanberis a'r Cylch

Daeth i'm meddiant yn ddiweddar raglen gwobrwyo Ysgol Brynrefail 1931. Mae'r gwahoddiad ar y flaenddalen yn uniaith Gymraeg, a'r rhestr gwobrau a llwyddiannau ysgolheigion oddi fewn yn uniaith Saesneg. Dwyieithrwydd go iawn! Yn amlwg ymhlith y rhai fu'n llwyddiannus gyda gwahanol ysgoloriaethau mae enw y diweddar Gwilym O. Williams, Archesgob Cymru.

Yr enw a dynnodd sylw oedd R. H. Francis dan y pennawd *'Old Pupils Successes'*. Hawliodd radd dosbarth cyntaf gydag anrhydedd mewn Mathemateg Bur yn 1929 ac mewn Mathemateg Gymhwysol yn 1930. Derbyniodd hefyd £150 y flwyddyn o'r 'Busk Studentship' *'for research in aeronautics, Emmanuel College, Cambridge'*. Mae'n fy nharo fel rhywbeth anghyffredin iawn i fachgen o'r ardal hon ddilyn cwrs o'r fath yn y cyfnod hwn. Oes rhywrai o'r darllenwyr yn gwybod rhywfaint o'i hanes, ac ym mha faes yr arbenigodd wedi hyn?

Cofiwch fod cyfarfod arbennig o'r Gymdeithas Hanes wedi ei drefnu yn Llanberis fis Ionawr. Y gobaith yw cael ail-ddechrau ar gyfarfodydd rheolaidd.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd 'Hen' i ddilynwyr y golofn! Anfonwch eich prydau neu eich briwsion hanesyddol i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (0286) 673515.



TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Gwella: Rydym yn falch iawn o glywed fod Mrs M. Wynne, Gelliod gynt, wedi dod adref o'r ysbyty.

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mr Arfon Jones, 6 Tai Bryngwyn gynt.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon (Waunfawr 799)

Croeso i'r Ceunant i'r cwpl sydd wedi ymgartrefu ym Marvista. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

'Un funud fach . . .'

CRIST YN YR ŴYL

Mae Cyngor Dinas Birmingham wedi penderfynu na fydd sumbolau Cristnogol yn cael eu harddangos yn y ddinas dros Ŵyl y Nadolig. Ni fydd yr un bugail na gŵr doeth i'w weld yn agos at addurniadau Nadolig y Cyngor eleni: ni welir mo preseb Bethlehem na dim arall i atgoffa pobol y ddinas o stori Geni'r Iesu. Ym marn y Cyngor byddai pethau felly yn dramgwydd i'r bobol o grefyddau eraill sy'n byw yn y ddinas. Mae'r Cyngor am gael gwared â'r elfen Gristnogol o'r Ŵyl.

Bydd rhai ohonom yn gweld penderfyniad y Cyngor yn un ffôl, ac eraill yn cael eu cythruddo gan y fath ymosodiad ar un o'n prif wyliau Cristnogol. Beth bynnag ein hymateb, tybed na ddylem hefyd feddwl am y lle a gaiff yr Arglwydd Iesu yn ein dathliadau ni ein hunain eleni. Mae'n hawdd condemnio'r Cyngor am geisio cadw'r Iesu allan o'i Ŵyl ei hun, ond a oes yna beryg ein bod ninnau yn gwneud yr un peth?

Mi fydd yna lu (gormod efallai?) o gyfarfodydd carolau eleni eto. Mi fydd drama'r Geni mewn capel ac ysgol. Mi fydd llun y bugeiliaid a'r doethion ar gannoedd o gardiau. Mi fydd gennym fodelau bach a mawr o'r preseb a'r baban bach. Fe ddarllenir yr hanesion cyfarwydd am Mair a Joseff a'r llety'n llawn, a'r baban bach yn cael ei eni yn y stabal. A diolch am hynny. Diolch bod stori Bethlehem yn dal yn ganolog yn ein dathliadau cyhoeddus.

Ond a fydd yr Arglwydd Iesu ei hun yn y canol? Mae'r Iesu a fu'n gorwedd mewn preseb yn Fyw ac awyddus i gael lle yn ein bywydau fel Arglwydd a Gwaredwr. Mae'r Un a gafodd ei addoli gan fugeiliaid am gael ei addoli gennym ninnau. Mae'r Un a garwyd gan ei fam ym Methlehem am gael ein cariad ninnau heddiw. Mae'r Un gafodd anrhegion gan ddoethion yn cynnig ei gariad a'i faddeuant yn rhoddion i ni.

Rwy'n edrych ymlaen at y Dolig: cyffro nôl a gosod y goeden; pacio'r anrhegion; deffro'n gynnar ar ôl i Siôn Corn alw heibio; cinio sbesial a brechdana twrci am wythnos; rhaglenni da a gwael ar y teledu. Ond gobeithio y caf i fel chithau ras i gofio'r Gwaredwr ac i brofi'r wefr o'i nabod Ef trwy'r Ŵyl.


JOHN PRITCHARD

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545

Ysgol Feithrin: Mae tymor y gaeaf wedi bod yn brysur iawn. Cynhaliwyd Eisteddfod Gwaun Gynfi ym mis Hydref ac fe ddysgodd y plant eu gwaith yn dda iawn — llongyfarchiadau iddynt i gyd. Casglwyd £32 i Blant Mewn Angen ac fe ddaeth y plant a'u hoff tedi gyda hwy i gael picnic yn yr ysgol. Mae parti Nadolig y plant yn cael ei gynnal ddydd Mawrth, Rhagfyr 14, pan fydd Siôn Corn yn galw heibio hefo anrhegion i bob un ohonynt.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod ar Dachwedd 30 o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones, pryd y cafwyd sgwrs gan Miss Eileen Williams am ei gwyliau yn Portugal, ac fe ddiolchwyd iddi gan y llywydd. Gwestai y te oedd Mrs Mair Lewis, Mrs Beti W. Davies a Mrs Mair Owen. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Mair Lewis ac fe'i henillwyd gan Mrs Janet Bingham. Erbyn hyn mae'r Clwb wedi bod am eu cinio Nadolig yn Llandudno ac fe fwynhawyd y wledd a'r gweddill y prynhawn gan bawb. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 25, os bydd y tywydd yn caniatáu.

Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi: Yng nghyfarfod blynyddol yr eisteddfod, a gynhaliwyd nos Wener, 26 Tachwedd, wrth fwrw golwg dros y steddfod am eleni fe gyfeiriodd y cadeirydd, Mary Wyn Jones, at y diffyg cefnogaeth gyffredinol i sesiynnau'r steddfod ar nos Wener a nos Sadwrn. Canmolodd y gefnogaeth a'r cystadlu brwd gafwyd ar y pnawn Sadwrn, a thalwyd diolch gwresog ganddi i ddisgyblion a staff Ysgol Gwaun Gynfi am eu dycnwch arferol. Sadwrn y steddfod wedi denu rhai cystadleuwyr ac eisteddfodwyr arferai gefnogi'r steddfod.

Oherwydd prinder amser ar y noson fe fethwyd â phenderfynu ar yr awgrym ei bod bellach yn briodol efalli i newid patrwm a delwedd y steddfod mewn ymdrech i rymuso'r gefnogaeth a chymell cystadlu o fewn dalgylch cyfyng y steddfod.

Gyda hynny mewn golwg fe drefnwyd i gynnull Cyfarfod Cyffredinol arall yn neuadd y pentref — mewn diddosrwydd. Cafwyd addewid yr heddlu lleol y byddant yn ymweld yn gyson â'r Ganolfan o hyn ymlaen er mwyn sicrhau diogelwch a threfn yno.

Etholwyd y canlynol o blith y rhai a enwebwyd gan fudiadau'r pentref i wasanaethu ar y Pwyllgor Rheoli am 1994 ar y cyd â chynrychiolwyr y Cynghorau lleol a llywodraethwyr Ysgol Gwaun Gynfi: Tydfil Jones, Margaret Roberts, Hefin Goronwy Jones, Mair Owen, Donald Jones a Hilda Parry.

Yn ddiweddarach etholodd y Pwyllgor Rheoli ei swyddogion canlynol — Cadeirydd: Margaret Roberts; Is-gadeirydd: Hilda Parry; Ysgrifennydd: Hefin Goronwy Jones; Trysorydd ac Ysgrifennydd Llogi: Robert Williams.

Gofynnir i'r mudiadau rheiny sydd heb gysylltu eisoes gyda'r Ysgrifennydd Llogi ar gyfer 1994 i wneud hynny yn ddiymdroi drwy lythyr.



Plant yr Ysgol Feithrin ar ddydd Plant Mewn Angen.

Ganolfan, am 7 o'r gloch, nos Fercher 5 Ionawr 1994. Pwysir ar bawb sydd â diddordeb yn niwylliant y fro i wneud ymdrech arbennig i ddod i'r cyfarfod i fynegi eu barn a lleisio awgrymiadau er parhad y steddfod.

Y Ganolfan: Siomedig, a dweud y lleiaf, oedd gweld ond dwsin wedi troi i mewn i gyfarfod blynyddol y Ganolfan a gynhaliwyd ar nos Wener, 10 Rhagfyr. Adroddwyd i'r cyfarfod fel y bu i 388 o gyfarfodydd gael eu cynnal yn y Ganolfan yn ystod 1993 gan ugain o fudiadau'r pentref; 306 o'r cyfarfodydd hynny wedi eu cynnal yn gwbl ddi-dâl. Diolchwyd i bawb a fu'n helpu i gadw'r Ganolfan ar agor.

Erbyn dechrau 1994 disgwylir gweld y Caban ar ei newydd wedd, wedi ei dacluso a'i baentio. Cafwyd achos i bryderu ar rai adegau yn y gorffennol am gamymddygiad rhai unigolion a phwysir am gefnogaeth a chydweithrediad pawb er mwyn cadw'r Ganolfan — sydd yn allweddol i fywyd cymdeithasol ein



Rhai o blant Gwaun Gynfi yn barod i gymryd rhan yn eu Cyngerdd Nadolig.

SIOP ESGIDIAU GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (0248) 714043
neu C'fon 674520
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

GWÊL Y LLYN
Lake View Hotel
LLANBERIS
870422
PRYDAU ARBENNIG AR GYFER PARTI
Byddai perchnogion a staff y gwesty yn falch o'ch croesawu ar gyfer eich dathliadau Nadolig
Rhaid archebu lle ar gyfer Dydd Nadolig a Nos Calan
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
Teganau, Cardiau Melysion Anrhegion
Cacennau Nadolig a Bara Brith Traddodiadol
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri am brisiau rhesymol
ELWYN PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun – Gwener 10.00 – 4.00
I gysylltu tu allan i'r oriau hyn ffoniwch
Llanberis 870922 neu Bangor 351427
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Wythnos Gwaith Ieuenctid
22-28 Tachwedd 1993
November
Youth Work Week

Mae 'na fwy i'r
'na chwarae


Anerchiad ein hybarch Arweinydd

Ai fi yw Jimmy Saville y fro, yn gyfrifol am gyflawni'r wyrth o gyfarfod â phob angen a dyhead ieuenctid y fro? Na — hwyluso yn unig yw fy ngwaith. Y NHW sy'n pwyllgora, trafod, trefnu, codi arian, helpu eraill — y cyfan drwy gyfrwng mwynhad ac yn hyrwyddo eu datblygiad i fod yn ddinasyddion cyfrifol y dyfodol ac nid yn bobl sy'n gwybod pris pob dim a gwerth dim byd! CEFNOGWCH NHW!



CWESTIWN: Pwy bia'r Clwb?

ATEB: Clwb ni! Ni'r aelodau ydyw. Ni fu'n penderfynu ar y rhaglen, pa hyfforddwyr i gael i mewn, pa ymweliadau, a pha weithgareddau cymunedol i'w cefnogi.





Caryl yn cael 'hairwrap' ac Andrew yn cael siaf gan Lorraine.

Dwi'n siŵr y byddai'n well gan Ellen fodel byw na'r hen ddymi plastig i ymarfer ei Chymorth Cyntaf.



CWESTIWN: Be' sy'n digwydd 'na?

ATEB: Rydym ni, aelodau Bethel, wedi bod yn ymweld â chlybiau eraill y fro, a dyma enghreifftiau o'r hyn a welsom yn ystod pythefnos cynta'r mis.

tenis bwrdd — pencampwyr bro'r Eco.

Clwb Ieuenctid e ping-pong

'Bloodbath' yng nghlwb Brynrefail — mae'n edrych fel petai Bethan wedi *stitchio*'r hogia i fyny.

Eilir wedi cynnig ateb yng ngwis Arfon — a dyna pam mae pawb yn chwerthin!



Siapus iawn — y POT!
Nid chdi Fiona!

Ambell waith mae angen brêc . . . criw o'r fro wrth droed yr Eiffel Tower yn ystod ymweliad â Paris ac Euro-Disney.



CWESTIWN: Oes 'na glwb yn ymyl lle da ni'n byw?

ATEB: Oes! Mae clybiau sydd ar agor ddwywaith yr wythnos (hyd at 60 agoriad) yn Bethel, Deiniolen, Llanberis, Llanrug a'r Waunfawr. Ceir clybiau un-noson ym Mrynrefail, Cwm-y-glo a Phenisarwaun.




'Dach chi'n gweld mae 'na fwy yn digwydd yn y clwb ieuenctid lleol na jyst chwarae 'ping-pong'!

ECO'R IFANC

Rhowch lythyren gyntaf pob ateb wrth 6 phwynt y Seren yn eu trefn. Dylech fedru darllen un o enwau Baban Bethlehem rownd y Seren.

1. Rhoddwyd aur a thys a ____ i'r Baban.
2. Enw mam Ioan Fedyddiwr.
3. Dilynodd y doethion hon.
4. Un o'r proffwydi a soniodd am y Baban __ s __ __ __ a __.
5. Dyma fyddai enw'r Baban a anwyd ym Methlehem.
6. Clywodd y bugeiliaid gôr o'r rhain.



Pa anrheg sy'n wahanol i'r gweddill?













ATEBION Y CWIS CHWARAEON

1, Harri Jones (99 heb fod allan i Glwb Criced Fron Dinas). 2, Oscar Evans, Bethel. 3, Dynamo Dolgarrog. 4, 23-0 v Y Bermo (sgôr uchaf yng Nghynghrair Gwynedd). 5, Cae Ras, Wrecsam. 6, Hywel Evans, Waunfawr, Is-reolwr tîm Prydain i rai ag anabledd. 7, Manon Williams, Llanberis, aelod o dîm pêl-droed merched Dinas Bangor. 8, Tennis. 9, Pysgota. 10, Mont Blanc, tra'n barcuta. 11, – 12 Bethel, – 10 Llanberis. 12, Clwb Rygbi'r Gynghrair, Wigan.



Rhai o Blant Cylch Meithrin Bethel gyda Martin Geraint (Slot Meithrin) a Siôn Corn yn eu parti Nadolig.



Dwy eneth fach yn mwynhau ymweliad buan yr hen Santa â'r fro.

Cynhesrwydd ac Ymdrech yr Aelodau

gan y Parchg Idris Thomas, Deon Gwlad Arfon

Er ei bod yn noson oer ar 23 Tachwedd 1993 roedd llawenydd yn fy nghalon wrth i mi deithio i gyfeiriad Eglwys Crist, Llandinorwig i wasanaeth trwyddedu y Parchedig Tegid Roberts yn Glerig mewn gofal o blwyf Llandinorwig a Phenisarwaun.

Gwyddwn er yr hinsawdd oer y tu allan y byddai Eglwys Crist yn byrlymu o gynhesrwydd a chroeso ei phlwyfolion, a dyna sut y bu. Mae rhai plwyfi, rhai trefol a dinesig yn eu plith, yn gweld sefyllfa o argyfwng os ydynt yn ddi-offeiriad am gyfnod, gan ddarogan bod diwedd y byd (yn sicr diwedd y plwyf) ar ddod os na chant Offeiriad ar unwaith.

Yn hyn o beth mae plwyf Llandinorwig a Penisarawaun, sy'n cynnwys eglwysi St. Helen, Penisarwaun, Eglwys Crist, Llandinorwig, ac Eglwys St Mair, Dinorwig, yn haeddu cymeradwyaeth uchel am ddal ati mor ddygn yn eu gwaith a'u cenhadaeth heb Offeiriad plwyf ers cyfnod o wyth mlynedd, a rhai cyfnodau cyn hynny yn ogystal. Yn lle rhoi eu pen yn eu plu, ymdrechodd y plwyfolion i gario'r gwaith ymlaen yn rhagorol gyda'r Deoniaid Gwlad ac Offeiriaid y Ddeoniaeth yn cynorthwyo. Rhaid i mi gyfaddef yn gwbl onest y byddaf yn gwallgofi pan glywaf rhyw frolio am blwyf neu'i gilydd, a rhai yn dweud fod y lleoedd hynny yn enghreifftiau i'w hefelychu, ac yn waeth byth gwneud hyn weithiau ar draul plwyfi eraill sydd yn gwneud y gwaith yn ddygn, heb unrhyw gyhoeddusrwydd ffug, yn ddiffuant ac yn dawel. Hefyd a bod yn blaen eto, mae na dueddiad i feddwl yn gwbl gamarweiniol fod plwyfi ac eglwysi a fu yn ddibynnol ar gynhaliaeth y chwareli erbyn hyn, fel y chwareli rheini, wedi edwino yn llwyr. Annhegwch mawr â phlwyfolion yr ardaloedd hyn yw mynegi unrhyw deimlad felly, a hwyrach fod teimladau o'r fath yn dueddol i wneud i rai Offeiriaid fynd i blwyfi eraill sydd yn eu tyb hwy yn cynnig mwy. Bu plwyfi broydd y garreg las yn y gorffennol yn cynnal y fflam Eglwysig a Christnogol, a'r neges heddiw yw nad yw'r sefyllfa honno wedi darfod o bell ffordd. Yn hanes Llandinorwig a Phenisarwaun roedd 23 Tachwedd 1993 yn gychwyn ar bennod arall yn eu hanes mewn mwy nag un ystyr a brysiaf i ddweud mai dyma'r tro cyntaf yn Esgobaeth Bangor i Offeiriad di-dal gael ei drwyddedu yn glerig mewn gofal o blwyf.

Nid oedd y sawl a gafodd ei drwyddedu y noson honno, sef y Parchg Tegid Roberts yn ddieithryn i'r plwyf a'r plwyfolion gan ei fod wedi byw yn yr ardal ers 1976, fel yr adroddwyd yn yr Eco fis Tachwedd.

Daeth tyrfa dda ynghyd i'r gwasanaeth yn Eglwys Crist, Llandinorwig, yn deulu, plwyfolion, cyd-athrawon, aelodau o eglwysi y Ddeoniaeth, aelodau o enwadau eraill y fro, ac offeiriaid o'r Ddeoniaith a thu hwnt. Cymerwyd y Gosber gan y Deon Gwlad, y Parchg Idris Thomas, ac un o gyn-Ddeoniaid Gwlad Arfon, y Parchg D. Noel Jones, Llanllyfni.

Darllenwyd y llith gyntaf gan Mr Brian Price o blwyf Llandinorwig a'r ail lith gan Huw Tegid Roberts, Penisarwaun, yr hynaf o dri mab y Parchg Tegid Roberts. Cafwyd y trwyddedu ar ôl y trydydd Colect, gyda Mrs Eurwen Roberts, Llandinorwig, yn adrodd y geiriau cyflwyno ar ran ei chyd-Wardeiniaid, a'r Parchg John Pritchard, Llanberis, gweinidog yn yr ardal yn cyfarch ar ran eglwysi'r cylch. Roedd trefn y trwyddedu yn fyr, yn syml, yn ddealladwy ac yn effeithio, a hyn mae'n debyg a ysgogodd un Offeiriad i ddweud wrthyf ar y diwedd fod y cyfan cystal, os nad gwell, o ran effeithiolrwydd na'r gwasanaeth sefydlu periglor i blwyf. Roedd pregeth ein hesgob, y Gwir Barchedig Barry Morgan, yn un arbennig, gan iddo yn glir a chroyw sôn am y trefniant plwyfol newydd ac egluro yn ddeheuig iawn beth yw ystyr 'offeiriadaeth' i bawb ohonom. Siaradai pawb am berthnasedd pregeth yr Esgob i'r achlysur. Y croes gludydd oedd y Parchg Ioan Wyn Jones, Llanbeblig, a'r organyddes oedd Mrs Gwen Griffith.

Roedd merched y plwyf wedi paratoi lluniaeth ardderchog i bawb yn yr eglwys a diolchwyd iddynt gan y Canon Barry Thomas, Caernarfon. Ar ran eglwysi yr ofalaeth cafwyd cyfarchion cynnes ac ardderchog gan Mr Haydn Lewis, St. Helen, Penisarwaun; Mr Glyn Tomos, St. Mair Dinorwig; a Mr Hugh Jones, Eglwys Crist, Llandinorwig. Nid oedd Mr Hugh Jones yn gallu bod yn bresennol ond darllenwyd ei gyfarchion gan Mrs Jennie Williams un o'r Wardeiniaid. Ar ran Ysgol Dyffryn Nantlle cafwyd cyfarchion gan y Prifathro, Dr Emrys Price Jones, a siaradodd ef yn garedig iawn am waith clodwiw Tegid yn yr ysgol. Fel y mynegais ar y dechrau, os oedd y tymheredd y tu allan i furiau'r eglwys yn oer roedd y tymheredd yn gynnes ym mhob ysytyr y tu mewn, ac yn yr ysbryd cynnes hwn y caiff y bennod bwysig hon yn hanes y plwyf ei lansio. Dymunir i Tegid, ei briod Nant, a'r meibion Huw Tegid, Ynyr Gruffudd a Ioan Eurig, bob hapusrwydd wrth iddynt gychwyn ar gyfnod newydd yn eu hanes.

Wrth gychwyn y car gerllaw muriau Eglwys Llandinorwig y noson honno, i ddychwelyd i bentref Trefor, a mynd heibio i fedd fy nhad yn y fynwent, ni allwn ond dwyn i gof bennill o gerdd yr anwylaf o feirdd bro y chwareli, sef y Prifardd Ieuan Wyn pan ganodd yn 'Gyrru Adref':

Edrych a gweld, o'u godre, — y bryniau,
Heibio'r rhain mae 'nghartre';
Adfywiad llygad yw'r lle,
Yn fy edrych dof adre'.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Capel Rehoboth: Cynhaliwyd cyfarfod Nadolig gan Chwiorydd Rehoboth a Chapel Coch yn festri Capel Coch, ddydd Iau, Rhagfyr 2. Cymerwyd rhan gan Mrs Alice Jones, Mrs Jennie Jones, Mrs Myfanwy Thomas, Mrs Betty Humphreys a Mrs Jean Ellis. Mrs Jennie Jones oedd y cyfeilydd, a darparwyd lluniaeth hefyd gan chwiorydd Rehoboth.

Cofio ffrind: Cyn-chwarelwr yw Arthur Williams o Nant Peris, fel llawer o'i gyfoeswyr yn y fro. Wrth edrych ar domennydd y chwarel hyd lethrau Elidir meddyliodd am lafur caled yr holl chwarelwyr a fu yno, ac i'r perwyl hwn ceisiodd lunio pennill fel cofeb i gyfleu cyfraniad y chwarelwyr. Gan nad oedd yn dod yn hawdd, fodd bynnag, rhoddodd fraslun o'i syniad i'r diweddar R. E. Jones (bardd gwlad o Garmel). Roedd y ddau yn digwydd bod yn Ysbyty Llandudno yr un pryd (yr unig Gymry ar y Ward).

Enillodd R. E. Jones 27 o gadeiriau eisteddfodol (un yn Eisteddfod Gorffwysfa Llanberis), a thrist oedd clywed am ei farwolaeth ar ddechrau mis Hydref. Roedd yntau hefyd wedi gweithio fel gof yn y chwarel, ac fel Golygydd yr *Herald* am chwarter canrif. Teimlai Arthur mai braint oedd cael adnabod y diweddar R. E. Jones a gresyn na fuasai wedi cael ei gwrdd ynghynt. Dyma'i bennill:

Trodd Elidir y chwarel fawr
Yn gofeb chwarelwyr yma'n awr,
Ei llethrau dan domennydd drud
Sy'n tystio i ddoe a ch'letach byd.

Croeso adref i Iwan o Fethel, mab Prydwen a Melvin Pritchard, Llys Awel, ar ôl iddo gael llawdriniaeth mewn ysbyty yn Llundain.

Croeso adref hefyd i Mr Eric Thompson, Tŷ'r Ysgol, ar ôl bod yn Awstralia am un wythnos ar ddeg yn ymweld ag amryw o'i deulu.

CANOLFAN UNIGRYW GELLI GYFFWRDD

Wrth deithio o gyfeiriad Gors Bach, Llanddeiniolen, i'r Felinheli bu sawl person yn holi'n chwilfrydig beth ar y ddaear oedd yr adeilad mawr pren oedd yn cael ei godi ar yr ochr dde.

Bellach fe wyddom mai menter ddiddorol Gelli Gyffwrdd — *The Greenwood Centre* yw'r adeilad — rhan o freuddwyd Stephen ac Andrea Bristow i'n haddysgu mor bwysig yw coed.

Bu Stephen ac Andrea yn gweithio gyda choed ers dros 20 mlynedd — yn astudio a darlithio amdanynt ac yn helpu i'w tyfu mewn llefydd mor wahanol â Bangor, Fienna, Dyffryn Afon Nîl a'r Sahel yn y Swdan. Bellach mae'r ddau yn lledaenu eu neges ym mro Eco'r Wyddfa i unigolion, grwpiau o blant ysgol ac ymwelwyr o bob cwr. I'w helpu i ddweud eu stori mae'r ddau wrthi'n dysgu Cymraeg ac Andrea bellach yn eithaf rhugl.

Mae Gelli Gyffwrdd yn cynnwys cyfres o lwybrau hawdd ac anodd trwy wahanol fathau o gynefinoedd coed. Er enghraifft, mae llwybr Rhododendron, llwybr tir gwlyb a llwybr coedwig drofannol. Ond, heb os, canolbwynt Gelli Gyffwrdd yw'r adeilad coed anferthol ar ffurf neuadd ganoloesol a ddechreuwyd yn Nhachwedd 1992 ac a agorwyd yn swyddogol gan Dafydd Wigley AS, ddiwedd Mai 1993.

Mae iddo naw fframderw i gynnal y waliau — a'r coed wedi eu dewis yn arbennig oherwydd eu siâp bwa. Caiff y fframiau derw eu dal ynghyd gan dros bum cant o begiau coed a gerfiwyd â llaw. 'Does ond angen edrych ar wneuthuriad hen eglwysi i weld pa mor hir mae'r rhain yn para!

Daeth y derw o ganolbarth Cymru a Swydd Amwythig. Ers talawm byddai prentisiaid y canoloesoedd yn gyfarwydd â thechneg codi adeilad o'r fath ond bu'n rhaid i'r pensaer Robin Carpenter a'r adeiladydd, ei fab Adam, ddysgu eu hunain drwy ddarllen hen lyfrau ac arbrofi ymarferol.

Mae'r Neuadd Ganoloesol yn cynnwys crefftwaith coed ac yn addas iawn lle byddai'r gegin mewn adeilad o'r fath mae stafell de i fodloni'r ymwelydd sychedig a llwglyd.

Mae Canolfan Gelli Gyffwrdd ar agor drwy'r flwyddyn a chynlluniau Stephen ac Andrea ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cyrsiau gwaith coed, ymestyn y llwybrau o fewn eu deunaw erw o dir, arddangosfeydd gwneud cadeiriau a gweu basgedi ac un neu ddau o gynlluniau sydd hyd yma'n gyfrinachol!

Mae eu menter yn haeddu llwyddo. Mewn oes pryd y siaredir llawer am rinweddau'r bywyd 'gwyrdd' aethant hwy ati i weithredu'n ymarferol i ledaenu'r neges.

Yn y fro lle bu W. J. Gruffydd yn canu am ywen geinciog, gnotiog yn gwarchod y meirw, crewyd moliant unigryw i bwysigrwydd coed i fywyd bob dydd.

R.J.R.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**

NGORSAF BETROL

POWER BERAN

DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau

Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd

Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

10 Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Capel Coch: Ar Ragfyr 2 cynhaliwyd gwasanaeth carolau Dosbarth Chwiorydd Capel Coch a Rehoboth. Cymerwyd rhan ar ran Capel Coch gan mrs Dilys Baylis, Mrs Dwynwen Roberts, Mrs Helen Morris, Mrs Maime Parry, Mrs Jane Jones, a Mrs Eluned M. Jones. Yna ar Ragfyr 8 daeth Mrs Menna Green, Coleg y Bala, i sôn am waith Bwrdd Cenhadaeth yr Eglwys Bresbyteraidd. Cafwyd cwmni chwiorydd o Ddeiniolen yn y cyfarfod hwn.

Cynhaliodd plant yr Ysgol Sul eu gwasanaeth Nadolig bnawn Sul, Rhagfyr 19, a chymerwyd rhan gan Bethan, Manon, Ceri, Michelle, Sioned, Rhiannon, Elin, Carys, Annwen, Laura, Chris, Marc, Dafydd Siôn, Owain, Rhys, Gethin Siôn, Dylan, Mathew, Iwan Jones, Llifon, Iwan Morris, Gruffudd, Daniel, Gethin Tudur, Stewart, Dafydd Evans, Carwyn, Ian, Tomos. Y diwrnod wedyn cafodd y plant eu parti Nadolig. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Yng nghyfarfod olaf y tymor o Gyfarfod y Plant daeth y consuriwr Marc draw i ddiddori'r plant, a chafwyd hwyl fawr yn ei gwmni.

Cyngor Eglwysig: Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig dan nawdd y Cyngor Eglwysig yn Nant Padarn, nos Fawrth, Rhagfyr 14. Cymerwyd rhan gan Mr Eurwyn Jones, Mrs Gwyneth Clark, Mr Robert Thomas, Mr John Hughes, Mr Cledwyn Parry. Mr Gwynfor Roberts oedd yr organydd, cafwyd anerchiad gan y Parchg John Pritchard.

Diolch: Dymuna Mr Thomas Pritchard, Berth, ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Diolch: Dymuna Mr a Mrs Bob Williams, 5 Rhes y Faenol, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur hapus dathlu eu Priodas Aur.

Ysgol Feithrin: Dymuna Catherine, Jan a'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i'r mamau a thrigolion y pentref am eu cefnogaeth i'r Bingo a wnaeth £300.15 o elw er budd yr Ysgol Feithrin. Ar Ragfyr 16eg cafodd y plant barti Nadolig yn festri Capel Coch. Cafwyd digon i'w fwyta, a chafwyd anrheg gan Siôn Corn.

Apêl y Tŵr: Cynhelir 'Noson Codi'r To' yng Ngwesty Dolbadarn, nos lau, Ionawr 13eg, 1994, am 7.30 o'r gloch er budd Apêl Atgyweirio tŵr Eglwys Sant Padarn. Noson ddifyr o adloniant a chanu dan arweiniad Arwel Jones fydd hi. Mynediad yn £2 a'r tocynnau ar gael gan Mrs Maureen Lennon ac aelodau'r eglwys.

Ysgol Dolbadarn: Diolch i bawb a gefnogodd y Noson Bingo a gynhaliwyd ganol y tymor yng Ngwesty Dolbadarn. Gwnaed elw o £207.

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn brysur iawn yn yr ysgol. Cawsom gwmni tri o fyfyrwyr o'r Coleg Normal yn ystod ail hanner y tymor, a gwerthfawrogwn gyfraniad Miss Heulwen Parry, Miss Vanessa Bowen a Mr Dylan Jones i waith yr ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw. Gobeithio iddynt fwynhau eu arhosiad yn yr ysgol a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y coleg.

Cynhaliwyd Ffair Lyfrau yn yr ysgol ddydd Iau, Rhagfyr 2, a chafwyd prynu brwd iawn.

Bu plant dosbarth Mr ap Elwyn yng Ngholeg Glynllifon am wythnos ddechrau Rhagfyr, a chael amser gwerthfawr iawn yno. Yr oedd plant blwyddyn 4 a 5 i fod i fynd i Barc Padarn am fore ym mis Tachwedd ond yn anffodus yr oedd y tywydd yn rhy arw. Er hynny daeth aelod o staff y Parc draw i'r ysgol atynt a mwynhaodd y plant ei sgwrs yn fawr.



'Ydi hi'n saff i droi rownd, 'ta ydi'r boi efo'r camera yn dal yno?' Mr Bryn Williams (ar y dde) sy'n cael ei holi yma ar gyfer Radio Cymru.



Cael golwg manwl ar y busnas plannu coed. Gweler y stori ar y dudalen flaen.

Yn ystod wythnos olaf y tymor cafwyd cinio Nadolig blasus; cynhaliwyd cyngerdd Nadolig yr ysgol; aeth y plant i Theatr Gwynedd i weld y pantomeim 'Seithennyn a'r Twrw Tanllyd Tanddaearol'; ac aeth rhai côr plant i ganu carolau ym Mhlas Pengwaith. Mae pawb yn edrych ymlaen at wyliau erbyn hyn. Nadolig Llawen i chi ar ran pawb yn yr ysgol, a diolch am bob cefnogaeth yn ystod y tymor.

Yr Urdd: Ar Ragfyr 1 cafodd y plant hynaf gyfle i ddysgu sut mae Eco'r Wyddfa yn cael ei osod. Y Parchg John Pritchard fu'n dweud peth o'r hanes wrthynt a chafodd y plant gyfle i osod rhai tudalennau. Os bydd angen help ar y golygyddion rywbryd fe wyddant ble i'w gael erbyn hyn! Roedd y plant wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Ar Ragfyr 8 bu'r plant iau yn gwneud taflenni gwaith ar thema'r Nadolig, a chafwyd noson hwyliog arall. Os bydd y criw a fydd yn plygu'r Eco hwn wedi clywed rhyw sŵn annaearol yn dod o gyfeiriad Ysgol Dolbadarn tra'n plygu'r papur yn Llanberis ar Ragfyr 22, dylid egluro mai Disgo plant yr Urdd oedd yn cael ei gynnal. Llongyfarchiadau i Gareth Jones a fu'n cynrychioli'r Adran yn y Gala Nofio Cenedlaethol ym Mangor; gorffennodd yn y 6ed safle yn rownd derfynol y ras broga ac yn 7fed yn y ras gymysg unigol. Cafodd tîm rygbi'r Adran gêm yn erbyn Adran y Gelli ddydd Gwener, Rhagfyr 17.

Cymdeithas Eglwys St Peris a St Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas yr Eglwys yn Sant Padarn, nos lau, Rhagfyr 2il, gyda nifer dda o'r aelodau yn bresennol, a Mrs Ann Parry-Jones yn llywyddu. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs Nancy Jones, Stryd Newton. Y wraig wadd y mis yma oedd un o'r aelodau selocaf y Gymdeithas, sef Mrs Maureen Lennon. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi ar 'Draddodiadau y Nadolig', gan egluro arwyddocad addurniadau'r Ŵyl, ac arferion y tymor pwysig yma ym mlwyddyn yr Eglwys. Mrs Evelyn Williams a Mrs Buddug Hughes oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl, gyda Mrs Kathleen Williams yn enillydd lwcus. Diolchwyd i'r dair yn gynnes gan Mrs Clara Roberts.

Undeb y Mamau, Sant Padarn: Cynhalwiyd cyfarfod yn Eglwys Sant Padarn ddydd Mawrth 7fed Rhagfyr, pryd y cafwyd gwasanaeth Nadolig o Naw Llith a Charol. Yn absenoldeb y Rheithor arweinwyd y gwasanaeth gan y Deon Gwlad, y Parchg Idris Thomas, a chymerwyd rhan gan yr aelodau; Mr Gareth Jones oedd yr organydd. Yn dilyn y gwasanaeth darllenwyd a chadarnhawyd cyfnodion cyfarfod mis Tachwedd. Cydymdeimlwyd â dwy aelod mewn profedigaeth, sef Mr a Mrs Glyn Williams o golli chwaer; a Mr a Mrs K. Cheeseman o golli chwaer yng nghyfraith. Llongyfarchwyd Mr a Mrs R. H. Williams ar ddathlu ohonynt eu Priodas Aur a dymunwyd yn dda iddynt. Diolchwyd i Mrs Nellie Morris a Miss Cathrine Pritchard am gynrychioli Undeb y Mamau yng ngwasanaeth Sul y Cofio. Yn dilyn, mwynhawyd te Nadolig. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Jean Roberts, Stryd Goodman.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



Y Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS. Ffôn 871278

Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w dewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Danny a Nerys Roberts** a'r staff

CYNGERDD NADOLIG YSGOL DOLBADARN

Cyngerdd Nadolig: Ddydd Mercher cynhaliwyd cyngerdd Nadolig yn neuadd yr ysgol. Cafwyd perfformiad yn y prynhawn ac un arall gyda'r nos gan fod cymaint o'r rhieni a'r ardalwyr eisiau gweld y plant yn cyflwyno rhaglen am y Nadolig. Perfformiodd Adran y Babanod bantomeim 'Nadolig yng Ngwlad y Rwla' a oedd wedi ei ysgrifennu gan Mrs Sue Brookes, un o'r athrawesau. Roedd y set a dillad y plant yn arbennig o effeithiol. Cafwyd eitemau offerynnol gan rai o'r plant sy'n cael gwersi offerynnol pres, clarinet a ffliwt yn yr ysgol. Trowyd plant dosbarth Mr Williams yn deganau yn ffatri Siôn Corn, a chafwyd cymharu digonedd Nadolig heddiw gyda llawenydd syml Nadoligau ers talwm gan ddosbarth Mr ap Elwyn. Seiliwyd rhaglen dosbarth Mrs Pierce a Mrs Humphreys ar garolau yn cael eu canu o amgylch coeden Nadolig. Diolch i'r plant ac yn arbennig i'r athrawon am gyngerdd hapus a lliwgar. Gwelir lluniau rhai o'r plant fu'n cystadlu yn y rhifyn hwn o'r Eco.



Plant dosbarth Mrs Pierce a Mrs Humphreys.



Plant dosbarth Mr ap Elwyn yn cyflwyn dau Nadolig — ddoe a heddiw.

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1/12/93 — £35: Mrs C. Sage, 13 Stryd Newton (43); £25: Mrs Williams, 3 Preswylfa (33); £15: Mr C. Roberts, Newton Hall (40); £10: Mr A. Jones, Gwesty Dolbadarn (73); £5: Gareth Jones, 30 Stryd Fawr (23). Pelen eira £50: Mrs I Jones, Stryd yr Wyddfa (130) a Mrs I. Jones, 19 Stryd Goodman (186).

DEWCH I DDATHLU GŴYL Y GENI

gyda

LLEISIAU LLIWEDD

a

ROBERT J. WILLIAMS
(Tenor)

yn FESTRI'R CAPEL COCH
23 RHAGFYR 1993
am 7.30 p.m.

Paned, mins peis a charolau.
Croeso cynnes i bawb.
Mynediad £1 (plant 50c)
Yr elw tuag at Achos y Capel Coch.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym musnes llefrith

EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: Llanberis 870563

Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Diolch: Dymuna Bessie Ellis, Joan, Pat a Ceris, a theulu y diweddar W. Griffith-Ellis, 15 Cremlyn, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd dderbyniwyd gan berthnasau, cymdogion a chyfeillion yn eu profedigaeth o golli gŵr caredig a thad a thaid annwyl, a brawd i Ann P. Hughes, Llanbedrgoch. Diolch hefyd am y cymorth gafwyd gan ffrindiau yn ymweld mor gyson a 'Wil' yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf tra y bu yng Ngherrig-yr-afon ac yna yn Ysbyty Bryn Seiont.

Diolch am y gofal tyner a dderbyniodd gan staff Ward Gwyrfai yn Ysbyty Bryn Seiont ac am eu caredigrwydd diflino tuag ato. Diolch am yr holl alwadau ffôn, cardiau a'r llythyrau dderbyniwyd ac am yr holl gyfeillion sydd wedi galw heibio. Bydd y rhoddion yn mynd tuag at Ward Gwyrfai yn Ysbyty Bryn Seiont.

Diolchir i'r Parchedigion Gwynfor Williams, Gwilym Parry, R. E. Hughes, W. R. Williams, E. Lloyd Davies ac Eifion W. Williams am eu gwasanaeth ac i Mr Gwynfor Jones, Llanberis, am drefnu yr angladd.

Diolch: Dymuna Catrin a Martin, Swyn Eryri, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Adam yn ddiweddar.

Diolch: Dymuna Carys ac Adrian, Berwyn, ddiolch am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ar Hydref 30ain. Diolch i bawb.

Diolch: Dymuna Gareth ac Ann, 16 Tan y Cae, a'r teulu, ddiolch o galon i gyfeillion a chymdogion am bob cefnogaeth a chyfeillgarwch drwy flwyddyn a fu'n anodd iawn iddynt fel teulu. Yn ystod amseroedd anodd mae gwerth cyfeillion a chymdogion yn dod yn amlwg ac mae byw mewn ardal mor gymdogol wedi bod o gymorth mawr i wynebu a goresgyn anhawsterau.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar lwyddo mewn arholiadau piano ym Mangor yn ddiweddar: Meleri Haf Ellis, gradd 1; Anest Williams, gradd 3; Awen Thomas, gradd 3; Eleri Robinson, gradd 4 gyda theilyngdod.

Ffair Nadolig y Cylch Meithrin: Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn yn y Neuadd Goffa fore Sadwrn, Rhagfyr 4ydd. Daeth Robert John y consuriwr yno i roi sioe driciau i'r plant a chafwyd eitem gan blant yr Ysgol Feithrin. Gwnaed elw o thua £430. Enillwyr y raffl oedd: Robert Gaffey, Menai Jones, Rachel Allen, Debra Roberts, Huw Foulkes, Gethin Morgan, Rhiannon Williams, Saron, Emyr Roberts, Felinheli, Barbara Williams, Dafydd Jones, Caernarfon. Dyfalu sawl 'Smarties' mewn jar: Robert Gaffey.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion hael: Treflyn Stores, Swyddfa'r Post Bethel, Garej Minffordd Bethel; Margaret Jones, Cefn, Garej Beran. Diolch hefyd i rieni, ffrindiau a staff yr Ysgol Feithrin am eu cefnogaeth.

Ar bnawn Mawrth, Rhagfyr 7fed, cafodd y plant wledd werth chweil yn eu parti Nadolig. Cafwyd ymwliad gan Siôn Corn a daeth Martyn Geraint, o'r rhaglen deledu 'Slot Meithrin' S4C i ddiddori'r plant. Cafodd pawb bnawn wrth eu bodd.

Clwb 200 y Neuadd: Enillwyr gwobrau Clwb 200 y Neuadd am fis Tachwedd oedd — £20: Mrs Sulwen Thomas, 1 Stad Eryri (99); £10: Mrs Meinir Roberts, Gwynfryn (167); a £5 yr un i Mrs Ann Parry, Waen Deg (84); Mrs Gwyneth Williams, Fron, Lôn Ddewi (73); Mr Alwyn Jones, Bro Dawel, Rhos-lan (148); Mr Dafydd Williams, 8 Stad Eryri (70); Mrs Olwen Jones, 12 Bro Rhos (11); Mrs Eirlys Sharpe, Ael-y-bryn (77); Mr David Markland, Ceidio, Tre Gof (223); Mrs Nan Owen, Berwyn (52).

Clwb 100 yr Ysgol: Enillwyr gwobrau Clwb 100 yr Ysgol Gynradd am fis Rhagfyr oedd £20: Mr Maldwyn Jones, 14 Bryn Paun, Llangoed (7); £15: Mrs Pat Owen, Cefn Cynrig)90); £10: Bethan W. Williams, 6 Cremlyn (39%; £5: Iona Williams, Alun House (94); £3: Meinir Roberts, Gwynfryn (44). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Lliwen Jones, Wenallt, fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 19.

Cyfarchion y Tymor: Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Bethel a'r cylch gan drigolion cartref preswyl St. Teilo.

Hwyl yr Ŵyl i'r Henoed: Daeth hanner cyntaf tymor Cwis y Bedol i ben erbyn hyn. Mae'r arian a delir gan bawb am gymryd rhan yn y Cwis yn cael ei roi at wahanol achosion da. Bellach mae'r cyfanswm a roddwyd at yr achosion hyn yn agos i £3,000. Henoed yr ardal sydd wedi elwa yn ddiweddar. Defnyddiwyd un o'r casgliadau i brynu hamper o nwyddau Nadolig i drigolion a staff cartref henoed St. Teilo.

A gwnaed casgliad yn ystod Cwis olaf yr hanner tymor cyntaf tuag at Glwb Bro Bethel, sef clwb y pensiynwyr. Cyflwynwyd siec am £40 i Mrs Mary Griffiths, trysorydd y Clwb.

Mae'r noson gwis a gynhelir bob pythefnos yn noson gymdeithasol, hwyliog. Bydd y Cwis yn ailgychwyn ar Ionawr 10fed 1994. Bydd y tîm buddugol — gyda mwyafrif o chwe aelod ynddo — yn derbyn £65, a bydd gwobrau hefyd ar gyfer yr ail a'r trydydd tîm. Beth am ffurfio tîm, a dod i fwynhau eich hunain tra ar yr un pryd yn cyfrannu at achosion da yn lleol.

Cwmni TARIAN Cyf.

Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
roi pris i chi.

TARIAN

**6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787**

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd dda i holl



Trigolion St Teilo yn llygadu'r hamper. Gobeithio y caiff y sieri ei rannu'n deg!!

Naws yr Ŵyl: I gloi hanner cyntaf y tymor roedd Cymdeithas Lenyddol Undebol Bethel wedi trefnu noson Nadoligaidd ei naws. Roedd Rita Williams a Goronwy Jones wedi llunio rhaglen eang ei chynnwys, yn edrych ar y Nadolig trwy lygaid beirdd a llenorion. Yr oedd y canu cynulleidfaol o garolau cyfarwydd hefyd yn ategu at y naws. Amlygwyd trwy gyfrwng y noson y dalent gynhenid sy'n bodoli ymysg aelodau'r Gymdeithas, a pharodrwydd yr aelodaeth i gymryd rhan. Yn gefn i'r noson roedd Bet Owen yn cyfeilio'n gelfydd, ac hefyd cafwyd trefniant effeithiol o gymysgedd o garolau. Unwaith eto eleni bu parti'r pwyllgor (Eirlys, Rita, Eryl, Glenys a Llinos) yn cynnal y safon uchel a sefydlwyd y llynedd. Bu eu cyfraniad ar gerdd dant yn swynol iawn. Cafwyd darlleniadau unigol gan Tomos Alun, Richard Llwyd, Dafydd Williams a'r Parchedigion W. R. Williams a Gareth Alban. Amrywiodd y darlleniadau o englynion, dwy soned, i ddetholiad o nofel *Gwen Tomos*. Cafwyd dau ddatganiad gan Nest Hanks gyda'i merch Freda yn ymuno â hi. Aeth pedwarawd Glenys, Siencyn, Gwilym a Rita ni o Corale Bach i Garol Eliseus (un o hen garolau y plygain).

Diolchodd y llywydd, Glyn Roberts, i bawb am eu cyfraniad ac i'r sawl a baratodd y wledd ar y diwedd.

Yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr bydd Cyfarwyddwr Addysg Gwynedd, Gwilym Humphreys, yn darlithio. Dewch draw bydd croeso i bawb!



Maldwyn Hughes a Richard Jones, ar ran criw Cwis y Bedol, yn cyflwyno'r siec i Mrs Mary Griffith, trysorydd Clwb Bro Bethel.

Ysgol Gynradd Bethel: Cafodd plant adran y babanod bnawn arbennig iawn yn ystod y mis pan ddaeth Mr Trefor Jones a Rhys, gŵr a mab Mrs Siân Jones, a'i gi i'w ddangos i'r plant. Cawsant arddangosfa o allu'r ci i ddal drwgweithredwyr.

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn brysur ond pleserus i'r plant yn yr Ysgol. Ddydd Mercher a nos Iau, Rhagfyr 8 a 9, cyflwynodd yr ysgol gyfan ddau berfformiad o'u cyngerdd Nadolig. Cafwyd ymateb da iawn gan y rhieni i'r ddau berfformiad gyda neuadd yr ysgol yn orlawn.

Dydd Mercher, Rhagfyr 15fed, mwynhaodd y plant a'r athrawon ginio Nadolig blasus iawn a dangosodd y plant eu gwerthfawrogiad i Mrs Eiriona Williams a staf y gegin am eu gwasanaeth ar y diwrnod a thrwy'r flwyddyn.

Nos Sul, Rhagfyr 19, cymerodd plant blwyddyn 5 a 6 ran yng ngwasanaeth carolau dan nawdd Merched y Wawr. Hyfforddwyd y plant gan Miss Lowri Prys Roberts.

Mwynhaodd plant yr ysgol ymweliad â Theatr Gwynedd i weld y pantomeim blynyddol ar ddydd Llun, Rhagfyr 20fed.

Yn goron i ddathliadau'r Nadolig yn yr ysgol oedd ymweliad Siôn Corn a'r ysgol pnawn dydd Mawrth.

**CANGEN PLAID CYMRU BETHEL
CYNHELIR
TWMPATH HEN GALAN
NOS WENER
7fed IONAWR 1994
yng NGWESTY'R ROYAL,
CAERNARFON
am 8 o'r gloch
Band: ADERYN PRIN
Galwr: GARETH JONES
Tocynnau £3**

CARTREF PRESWYL

SANT TEILO

SARON

BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

yr holl breswylwyr, Mrs Bilbie a'r staff

Ymholiadau: Port Dinorwig 670353

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid ol oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST

BETHEL

Ffôn: Y Felinheli

670261

BWYDYDD, MELYSION

A PHAPURAU NEWYDD



BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll oddi wrth

Kevin a Carolynne

Ffôn: Port Dinorwig 670155

---

cefnogwch fusnesau lleol

CEIR CYMRU

BETHEL (0248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN

FFENESTRI CELTAIDD

(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

NHBC

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

JOHN WILLIAMS, BRYN DAIRY

Tyddyn Difyr **Ffôn: (0248) 671012**

BETHEL



CYFLENWYR PORTHIANT

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES

GWERTHWYR NWY A GLO



Y Fachell

Llanddeiniolen

Ffôn:

Port Dinorwig 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN



SIOP SGLODION BETHEL

Ffôn: 670760

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Clwb Hwyl Hwyr: Bellach mae'r Clwb wedi ei sefydlu a'r plant sy'n mynychu yn cael amser wrth eu bodd. Fel y gellir disgwyl mae'r gweithgareddau hyd yma wedi bod yn ymwneud â themau'r Nadolig a bwriedir i Siôn Corn alw yn y parti Nadolig a gynhelir ar brynhawn dydd Mercher, Rhagfyr 22ain. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob nos lau rhwng 6.30 a 7.30 yn y Ganolfan (symud i nos Fawrth pan gynhelir cyfarfodydd y Gymdeithas Undebol) a hyd yma mae oddeutu dwsin o blant yn mynychu o wythnos i wythnos. Os dymunwch gynorthwyo yn y gwaith yna dewch i'r nosweithiau. Bydd croeso yn eich aros.

Cymdeithas Undebol: Edrych tua'r flwyddyn newydd fydd y Gymdeithas yn awr gan y cynhaliwyd y Gwasanaeth Carolau ar nos lau, Rhagfyr 16, a hynny yng ngofal Mrs Betty Peris Roberts a Miss Olwen Roberts. Diolch i'r ddwy ohonynt. Cyn hynny ar nos lau, Rhagfyr 2, fe ddaeth Mr John H. Hughes, Llanberis, i lenwi bwlch Mr Rol Williams, Waunfawr a oedd yn methu a bod yn bresennol. Cafwyd sgwrs hynod o gartrefol a diddorol ganddo am Blas Glynllifon a diolchwyd yn wresog iddo am ddod i'r adwy ar y funud olaf. Yn ystod mis Ionawr fe gynhelir Cyfarfod Gweddi yng nghwmni aelodau Capel Sardis ar y 6ed o Ionawr; ac yna croesawir Pedwarawd Liz Perkins ar yr 20fed o Ionawr. Dwy noson i edrych ymlaen atynt. Diolch i'r swyddogion am drefnu'r cyfan.

Profedigaeth: Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mr Robert Griffith Jones, gynt o Bron Myfyr, a fu farw ar y 29ain o Dachwedd yn ei gartref, 13 Y Rhos, Penrhosgarnedd. Cydymdeimlwn yn fawr â'r plant, Eifion, Elen a Melfyn, sydd yn dal cysylltiad â'r pentref drwy eu hymweliadau â chartref Mr Derek Williams a'i deulu ym Mron Eilian.

Bedydd: Achlysur arbennig bob amser yw bedydd plentyn bach a dyna a fu yn Eglwys St. Mair ar fore Sul, Rhagfyr 5ed. Bedyddiwyd Haf Bryn, merch Mr a Mrs Steven Jones, 8 Bro Elidir. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Tegid Roberts. Braf oedd gweld cynulleidfa luosog yn bresennol a Haf yn chwarae ei rhan yn fendigedig. Pob dymuniad da iddi hi a'i rhieni i'r dyfodol.

Gwasanaeth Nadolig: Fel sydd yn arferiad bellach, cynhelir Gwasanaeth Nadolig ar fore Gŵyl y Geni (Rhagfyr 25) yn Eglwys St. Mair a bydd croeso i bawb o bob enwad ymuno yn y dathliad.

Eglwys St. Mair: Mae'r eglwys wedi ei haddurno yn hardd yn ystod tymor yr Adfent ac mae'r diolch am hynny yn ddyledus i Bethan Wyn a Ffion Haf. Diolch iddynt am addurno'r eglwys â chelyn ac am danio a chwythu canhwyllau'r Adfent dros yr wythnosau diwethaf. A ninnau bron ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hoffai'r swyddogion atgoffa pawb bod angen derbyn eu cyfraniad ariannol mor fuan ag sydd bosibl. Diolch yn fawr ymlaen llaw i bawb. Hefyd pob dymuniad da i Miss E. Thomas, Llidiart y Clo, sydd yn preswylio ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Nadolig Llawen arbennig iawn iddi hi.

Blodau'r Allor: Ionawr 2, 9 a 16 — Mrs Heulwen Jones, 9 Bro Elidir; Ionawr 23, 30 a Chwefror 2 — Teulu 1 Bro Elidir.

Anrheg Nadolig: Dal i chwilio am yr anrheg delfrydol? Os felly beth am lyfr Norman Closs Parry o dan y teitl *Bedwargoed* a gyhoeddir gan Wasg Gomer a'i bris yn £3.75 (bargen os bu un erioed). Fel y gŵyr pawb mae'r awdur yn enedigol o'r Fachwen ac yn dal ei gysylltiad â'i gartref yno. Mae'n lyfr hynod o ddiddorol, yn llawn amrywiaeth ac mae'n gwneud gwaith darllen difyr dros ben. Ewch allan i'w brynu, ni chewch eich siomi.

Cyfarchion yr Ŵyl: Pob dymuniad da i bawb yn ystod yr Ŵyl ac yn arbennig felly i'r plant sydd yn disgwyl yn eiddgar am ymweliad Siôn Corn. Mae yn sicr o alw coeliwch fi. NADOLIG LLAWEN I BOB UN OHONOCH.

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER TŶ A GARDD

CAERNARFON
Ffôn: 676506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



YSGOL BRYNREFAIL

'Roedd Ysgol Brynrefail o dan ei sang ar ddydd Mercher, 15 Rhagfyr, pan ddaeth disgyblion Ysgol Pendalar i dreulio prynhawn yng nghwmni disgyblion y chweched dosbarth.

I ni'r chweched dechreuodd y gwaith o baratoi wythnosau yn ôl, gyda pawb yn gwneud eu rhan fach ar gyfer yr achlysur. Bu cynrychiolwyr o bob pentref yn casglu arian oddi wrth siopau a busnesau lleol a bu'r ymateb yn anhygoel o hael, rydym yn gwerthfawrogi cydweithrediad pawb. Bu disgyblion eraill yn casglu arian tu allan i Leos ar 27 Tachwedd.

Cyrhaeddodd y diwrnod mawr a safai disgyblion y chweched yn disgwyl am ddisgyblion Ysgol Pendalar. Cychwynodd y prynhawn gyda rhai o Ysgol Pendalar yn ein diddanu gyda chân neu ddwy, yna heidiodd pawb i'r ffreutur i flasu gwledd fendigedig a baratowyd gan mrs Mair Griffiths a merched y chweched ac roedd yn galondid gweld fod dim un briwsionyn ar ôl ar y diwedd.

Uchafbwynt y dydd oedd ymweliad Siôn Corn a'i gorach bach ffyddlon. Derbyniodd pob un o'n gwesteion anrheg personol i leihau'r aros tan y diwrnod mawr, ac ein anrheg Nadolig cynnar ni oedd gweld y wynebau ifanc yn llawn llawenydd, a gwybod ein bod wedi cyfranu at eu hapusrwydd.



Parti gwerth chweil!

Hoffem ddiolch o waelod calon i'r holl unigolion a'r busnesau lleol am eu haelioni i wneud y parti mor llwyddiannus.

Diolchwch i'r busnesau canlynol am eu cefnogaeth — Cwm-y-glo: London Garage, Outsider, Morris Bakery; Bethel: Swyddfa'r Post, Siop Treflyn, Argraffwyr Eryri, CleanEasy Services, Dyn Llefrith, Bethel Scaffolding, CDH (Bangor); Llanrug: Seiont Manor, Arvonia, Siop Sgwâr, Co-op, Wavell, Caffi, Swyddfa'r Post, Foelas, Siop Sglodion, Siop Bont, Siop Sglodion Bont, Llys Eiddion; Penisarwaun: Siop Gron, Mr E. W. Jones, Mr M. W. Jones, Mr G. O. Roberts; Deiniolen: Thomos & Jones Glass, Bull Inn, Tafarn Datws Arfonia, Swyddfa'r Post, Arfon Garage, VG Late Store; Eraill: Clwb Dyngarol Ysgol Brynrefail, Blake & Arnold, casgliad Nia, Emrys Owen, Garage Beran, Meddygfa Waunfawr, Idris Morris, Gors Bach, Cwsmeriaid Gors Bach, Gerallt Owen, Dr Helmers a Neil, Gwynedd Upholstery, Morgan Evans, Becws Carlton; Llanberis: Gwynedd Restaurant, Dolbadarn Hotel, Padarn Lake, Casgle Gift Shop, Becws Eryri, Grosvenor, Joe Brown, Co-op, Sea Fresh, Glan-y-don, Garth Maelog, Formag, Wool Stop, Crefftau'r Grug, Snowdon Garage, Spar, W. G. Allsup, Prince of Wales.



Siôn Corn, y corach a'r carw yn ymweld ag Ysgol Brynrefail eleni eto.

CYFARCHION NADOLIG

WAUNFAWR
A BETWS GARMON

Y FAVORIT ESTATE LS – mwy fyth o lwyddiant ysgubol.



SKODA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r Staff
MODURDY PANT WAEN WAUNFAWR
Ffôn: 650524

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
DAVID CLOUGH
Ynysoedd WAUNFAWR
Ffôn: 650 282
Paentio ac Addurno
Gwaith Atgyweirio
'Estimates' am ddim

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH
ALLEN AC ANNE ADDISON A'R TEULU



YSTORFA TŶ NEWYDD
WAUNFAWR 650708



Bwydydd, Melysion, Ffrwythau
Papurau Newydd, Cardiau
a Bwydydd Anifeiliaid

Mae **Liz a John Whitehead, Anna a Cerys**
SIOP CHIPS WAUNFAWR
Ffôn: 650683
yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

WELDPAR
CYMRU WALES
8 Pant y Waun
WAUNFAWR. Ffôn: 650426
WELDIO O'R SAFON UCHAF
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



MICHAEL A RAILI BURTON
LLYTHYRDY BETWS GARMON
Ffôn: Waunfawr 650233



Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
i bawb


Cyfarchion y tymor gan *Westy*
PLAS-Y-COED
Betws Garmon
Ffôn: Waunfawr 650284



- Croeso Cyfeillgar
- Trwydded Lawn
- Bwydydd Restaurant a Bar

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
EMRYS OWEN
PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)





- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 650253

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
bawb oddi wrth
BERYL A BARRY WALKER
a staff y
SNOWDONIA PARK HOTEL
WAUNFAWR
Ffôn: 650218



SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL
WAUNFAWR Ffôn: 650235
Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref
Offer canfod mwg ar gyfer y cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân hyn oll, a llawer mwy i'w weld yn ein siop
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth David a Peter Greasley a'r staff

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwed — £40: Mrs Heulwen Hughes, Argoed; £25: Mr P. E. Marston, Blaen-y-nant; £10: Mr E. O. Hughes, Bryn Golau.

Plygu'r Eco: Ni, pentrefwyr y Waunfawr fydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf or Eco. Taer erfyniwn am gymorth i wneud y gwaith yn Festri Capel Croesywaun am 6 o'r gloch ar nos lau, Ionawr 27.

Llongyfarchiadau

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Terry a Lorna Parry, Stad Tŷ Hen, ar enedigaeth mab bach, Tomos Huw, brawd bach i Meurig Llewelyn ac ŵyr bach i Mr a Mrs Hugh Parry, Stad Bro Waun.

Dathlu Pen-blwydd: Dymuniadau gorau i Fflyr Llewelen, 22 Tref Eilian, ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar 14 Ionawr, oddi wrth Mam a Dad a'r teulu.

Ymddol: Dymuniadau gorau i Mrs Alice Johnstone, Tŷ Gwyn, ar ei hymddeoliad.

Diolch: Dymuna Mr Dafydd Morris, 2 Bryn Golau, ddiolch i bawb a fu'n ymweld ag ef tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl iddo ddod gartref.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Llinos Dinwiddy, Glyn Garth, a Mr George Grindy, Fair Fields, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Adref o'r Ysbyty: Rydym yn croesawu Mrs Llywela Davies, Stad Tref Eilian, adref o'r ysbyty ac yn falch o ddeall ei bod yn gwella.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Miss Jane A. Owen, Bod Gwilym; Mrs Catherine Williams, Trem Don; Mrs Laura Pierce, Ty'n Twll; a Mr Richard Owen, Bro Waun, yn eu profedigaeth o golli eu brawd a oedd yn byw yng Nghanada.

Cyngerdd y Plant: Cafwyd noson gwerth chweil ar nos Wener, 10fed o Ragfyr yng nghwmni plant yr Ysgol Gynradd. Hoffai pwyllgor y llywodraethwyr ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, i'r plant am befformiad rhagorol, i bawb fu'n helpu ar y noson ac i'r athrawon am eu gwaith o hyfforddi'r plant. Diolch yn fawr iawn.

Yr Urdd: Ar Ragfyr 8fed fe gafodd plant yr adran ddisgo Nadolig yn y ganolfan roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr — roedd pawb wedi gwisgo mewn gwisg ffansi — diolch i'r rhieni am fynd i gymaint o drafferth gan fod y plant yn werth eu gweld. Dyma'r enillwyr — Dosbarth Mrs Ellis: Ieuan Owen; Safon 1: Ceirion Rowlands; Safon 2: Sara Owen; Safon 3: Ifan Morgan; Safon 4 ac Ysgol Uwchradd: Fiona Davies.

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth helpu ar y noson gyda diolch i Swyddfa'r Urdd am y disgo.

Bydd yr Urdd yn ailddechrau ar Ionwr 12fed, am 6.15 o'r gloch. Nadolig Llawen i holl blant yr Adran.

Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 650291

hefyd ail-osod carpedi

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



GERAINT OWEN

Gosodwr Carpedi

(A phob math o loriau)

Cil-y-mynydd

Waunfawr

Rhif Ffôn: Waunfawr 650552

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth: Mr a Mrs Owen



Mae

LLEUFER A NELMA PRITCHARD



CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Marwolaeth: Dydd Sul, 5 Rhagfyr, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Alun Rowlands, Cilmeri, 5 Hafan Elan, Llanrug, yn frawychus o sydyn. Tad annwyl iawn Wyn, tad yng nghyfraith Iris a thaid Neil, Glanrafon; priod y ddiweddar Nan, a thad y ddiweddar Mair. Bu'r angladd ddydd Iau, 9fed o Ragfyr yng Nghapel y Tabernacle, Cwm-y-glo. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parchg Gwynfor Williams. Bu Mr Alun Rowlands yn byw yn Bod Afon, Rallt Goch, cyn iddo symud i fyw i Lanrug 13 mlynedd yn ôl, ond i'r Cwm y deuai bob dydd i fod gyda Wyn, Iris a Neil yn y garej a Glanrafon, roedd eu gofal yn fawr drosto.

Roedd yn ŵr tawel a pharchus iawn, wedi gweithio fel chwarelwr yn chwarel Dinorwig am 44 o flynyddoedd. Roedd yn uchel iawn ei barch gan ei gymdogion a'i ffrindiau yng Nghwm-y-glo a Llanrug. Fel y dywedodd y Parchg Gwynfor Williams yn ei deyrnged iddo, gŵr tawel, cymwynaswr mawr a'i gred yn fawr yn Nuw. Cymerai ddiddordeb mawr ym mhlant y pentref a'u diddordebau, ac Yncl Alun oedd o iddynt i gyd. Bydd colled fawr iawn ar ei ôl yn enwedig i'w deulu a hefyd i'w ffrindiau a'i gymdogion.

Cydymdeimlo: Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf i Mr Wyn Rowlands a'r teulu, Glanrafon, yn ei brofedigaeth sydyn o golli ei annwyl dad, Mr Alun Rowlands, Cilmeri, 5 Hafan Elan, Llanrug. Hefyd fe gydymdeimlwn â Mrs Peggy Rowlands, Talafon a Mrs Gwyneth Chick, Rhos y Ffin, a Mr Hywel Williams, Nant Forgan, o golli eu brawd yng nghyfraith.

Diolchiadau:

Dymunwn ddiolch i aelodau y Clwb leuenctid am ymgymeryd â'r gwaith o blygu rhifyn olaf o'r Eco fel un o'i gweithgareddau i helpu'r ardal. Diolch yn fawr hefyd i'w harweinydd Mr Dafydd Price.

Dymuna Wyn, Iris a Neil, Glanrafon, ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, Alun Rowlands. Diolch am y llu cardiau, llythyrau, galwadau ffôn a'r rhoddion tuag Gronfa Athritis. Diolch i'r Parchg Gwynfor Williams am ei wasanaeth; Mrs Iola Evans, yr organyddes; cyfeillion Hafan Elan am drefnu'r lluniaeth; ac i Mr Myrddyn Pritchard a Gwynfor am y trefniadau. Diolch yn fawr.

Undeb y Mamau: Cyfarfu aelodau'r Undeb gyda'u ffrindiau yn Hafan Elan, Llanrug, ar nos Lun, Rhagfyr 6ed i gynnal eu Noson o Garolau a Llithoedd. Darllenwyd y llithoedd gan amryw o'r aelodau a mrs Bastow o Rhosgadfan oedd wrth y piano. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd bwffe Nadolig wedi ei drefnu gan aelodau Llanrug ac fe fwynhawyd y bwyd gan bawb. Rhoddwyd y raffl gan Mrs B Jones a Mrs J. Ransom ac fe'i henillwyd gan Mrs B. Jones, Lyndale; Mrs Annie



CYFARCHION NADOLIG O'R WAUNFAWR



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth



David, Bridget a Nikey Ryan

SWYDDFA'R POST

Waunfawr

Ffôn 650651



SIOP BRYN PISTYLL

Anrhegion Nadolig ar gyfer y teulu

★ Basgedi Cynnyrch Cartref
★ Aromatherapi ★ Teganau
★ Addurniadau Nadolig
★ Basgedi Blodau Sych



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn yr Antur

Parry, 14 Hafan Elan; Mrs Marie Lomas; a Mrs Fisher, Hafan Elan. Gwnaed elw o £21.60. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Ionawr.

Yr Urdd: Nos Fawrth, Tachwedd 23, cafodd yr adran fynd i ymuno gyda adran Penisarwaun. Mwynhawyd noson o gemau gyda Mr Eifion Harding. Diolch yn fawr i'r adran am eu gwahoddiad a'u croeso cynnes.

Nos Lun, Tachwedd 29, daeth Mr Derek Brown atom i ddangos sleidiau a sgwrs ddiddorol. Diolch iddo am ddod. Roedd y noson yng ngofal Anti Gill ac Anti Wanda.

Rhagfyr 13 cafwyd noson o wneud addurniadau bwrdd Nadolig hyfryd iawn gyda Anti Nerys ac Anti Cath. Diolchwyd iddynt gan Llion.

Ysgol Cwm-y-glo: Bellach, daeth cyfnod ymarfer dysgu Miss Non Thomas a Miss Catrin Evans o Goleg y Normal i ben. Mawr yw ein gwerthfawrogiad o'u gwasanaeth i'r plant ac i'r ysgol. Dymunwn y gorau yn y dyfodol i'r ddwy ohonynt.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Miss Wendy Smith yn ei phrofedigaeth o golli ei nain yng Nghaernarfon.

Aeth gwobr gyntaf Clwb yr Ysgol am fis Tachwedd i Mrs Diane Pritchard, Glandŵr, Llanberis; a'r ail wobr i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, Cwm-y-glo.

Cafodd yr holl blant wledd o hwyl yn Theatr Seilo, Caernarfon, bnawn Gwener, Rhagfyr 10fed. Mwynhawyd pob munud o berfformiad myfyrwyr Coleg Gwynedd o'r pantomeim 'Un Dyn Bach ar Ôl'.

Unwaith eto roedd cinio Nadolig yr ysgol yn llwyddiant mawr. Diolch yn fawr i Mrs Orritt ac Anti Sioned am ei baratoi i ni.

Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig yn neuadd yr Ysgol ar nos Iau, Rhagfyr 16. Yn ystod 'Pawb yn Barod?' fe wnaethpwyd casgliad tuag at drueiniaid y rhyfel yn Bosnia.

Trefnodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol barti Nadolig campus i'r plant ar nos Wener, Rhagfyr 17. Cawsant wledd o fwyd, disgo a chwaraeon ac anrheg gwerthfawr bob un gan Santa.

Daeth aelodau o Glwb Pobl y Cwm atom eto eleni am baned a mins pei. Cyflwynodd y plant anrheg i bob un ohonynt ynghyd â nifer o eitemau o'r cyngerdd.

Carem ddymuno Nadolig Llawen iawn i bawb a diolch am gefnogaeth werthfawr rhieni, llywodraethwyr, ffrindiau a phentrefwyr i'r ysgol ar hyd y flwyddyn.

Ein dymuniadau gorau hefyd i chwi am flwyddyn hapus a dedwydd yn 1994.



CYFARCHION NADOLIG CAEATHRO

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu ar ddechrau'r flwyddyn newydd am 2 o'r gloch y prynhawn —

2 Parchg Iorwerth Jones Owen
9 Y Gweinidog
16 Parchg Gareth Maelor Jones
23 Parchg Gwynfor Williams
30 Y Gweinidog

Ffair Nadolig y Capel: Trwy ymdrechion caled y stondinwyr, y rhoddwyr, y prynwyr a'r cefnogwyr codwyd £173 at gostau'r capel a'r fynwent drwy'r Ffair Nadolig a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr.

Cydymdeimlad: Cydymdeimlwn â gwraig, plant ac wyrion y diweddar John Pritchard, Bryn y Gof, a fu farw yn ddiweddar.

Gwellhad: Gobeithiwn y bydd Arwel Griffith yn gwella'n fuan wedi ei ymweliad ag Ysbyty Gwynedd ac y bydd yn ôl yn chwarae i dîm rygbi o dan 16 oed Caernarfon yn fuan iawn.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Deian Parry Jones, Bryn Eglwys, ar lwyddo mewn arholiad piano gradd 1, yn ddiweddar, o dan nawdd y Bwrdd Arholi Brenhinol.

Cymdeithas Dunkirk: Cawsom wybod gan Mr Stanley Griffiths o Harrogate bod ei frawd, Mr Gwilym Owen Griffith, Llys Menai, Caeathro, wedi cael ei benodi yn gadeirydd Pwyllgor Cymdeithas Dunkirk. Fe gafodd Gwilym Griffith ei hunan ei anafu yn Dunkirk yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Wedi'r rhyfel fe ymddiddorodd yng ngwaith y Gymdeithas hon sy'n gwasanaethu cyn filwyr a'u teuluoedd. Mae'r Gymdeithas yn cynnig cymorth ynglŷn â budd-daliadau a phensiynau ac ati yn ogystal â cheisio gwybodaeth am gyn filwyr ar gyfer teulu a chyfeillion. Bu'n weithgar iawn gyda'r pwyllgor sirol lleol. Ddwy flynedd yn ôl fe ddychwelodd i Ffrainc i fynychu gwasanaeth coffa i'r rhai a fu farw yn ystod yr ymladd oddi ar arfordir Dunkirk. Yn ddiweddar cafodd ei benodi'n llywydd Pwyllgor Cymdeithas Dunkirk yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn nesaf, a dymunir yn dda iddo yn y swydd.

Cyfarchion y Tymor: Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Caeathro a Rhosbach, ac yn arbennig wrth gwrs i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa, gan gynnwys cyn drigolion o'r ardal sydd ar wasgar. Gobeithiwn gwrdd rhai ohonoch dros yr Ŵyl.

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
WALI, NORMA A'R TEULU
TAFARN
BRYNGWNA
CAEATHRO



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU
GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn





NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GWALIA GARAGE, CAEATHRO
Ffôn: 673096



M. O. T. ● TRWSIO CEIR ● GWASANAETH TORRI LAWR 24 AWR

O Siambr Selwyn

Sut Ddolig ydach chi am gael blant? Mi gewch chi gryn dipyn o gardia reit siwr. Ys gwn i faint o gardia gewch chi hefo llun carw neu ebol asyn (neu ful bach) arnyn nhw?

Ia, dyna'r ddau anifail mwya poblogaidd a welwn ni ar gardiau Nadolig ynte. Wrth gwrs fe welwn y robin goch, a'r hen dyrci druan. Ond dyna fo — adar ydyn nhw, nid anifeiliaid.

Y carw, medda nhw, sy'n tynnu slej Santa Clos dros gyfandiroedd y ddaear ma. Yn ôl rhai, gall y ceirw hyn gludo slej Santa ar wib drwy'r awyr hefyd. Ydy hyn yn wir ys gwn i — ta oes na le i amau'r peth deudwch?

Wel, beth bynnag am y carw, mae'r storiau am y mul bach yn berffaith wir. Ar gefn yr asyn mwya diniwed y bu i Iesu Grist ffoi i'r Aifft ar ôl y Nadolig cynta hwnnw. Ffordd gyfrwys i ffoi ynte? Ddaeth o ddim i feddwl y twpsyn Herod i chwilio am frenin ar gefn mul. Ar gefn asyn hefyd y bu i'r Iesu farchogaeth i Jeriwsalem ar ei daith olaf. Rhyfedd te, i Frenin y Brenhinoedd wneud ei daith gyntaf a'i daith ola ar gefn mul.

Mae'n debyg i lawer ohonoch chi blant gael reid ar gefn mul ar lan y môr rywdro. Hen greadur styfnig ydio yn ôl rhai. A gall fod yn gwbwl fyddar er bod ganddo glustiau mor fawr. Na yn sicr, does na ddim o urddas y ceffyl yn perthyn i'r hen ful druan.

Ond hidiwch befo. Fe gafodd yntau ei awr fendigedig hefyd:

Ynfydion — cefais innau f'awr
Un awr felysa gaed,
Roedd swn Hosanna yn fy nghlust
A phalmwydd dan fy nhraed.

Yng nghanol miri y Nadolig hwn, y tyrcwns a'r gwyddau a'r ceirw yn tynnu'r slej, arhoswch ennyd i gofio am y diniweitaf o'r anifeiliaid — ia yr hen ful bach.



Selwyn yng nghwmni mul bach enwocaf Cymru.

Mae'n siwr gen i mai'r mul enwoca yng Nghymru yn ystod y misoedd nesa ma fydd 'Mul Bach Cae Metta'. Bydd, mi fydd na ddwsinau o blant yr Urdd dan ddeuddeg oed yn sôn amdano fo ar lwyfannau'r eisteddfod.

Rydw i yn dipyn o fêts hefo'r mul arbennig yma, ac mi fydd Myra a finna yn mynd yn rheolaidd bob pnawn Sul bron i gyffiniau Cae Metta i edrych amdano fo, gan fynd a ffidan o foron ac afalau iddo.

O ydi, mae o yno'n disgwyl amdanon ni, yn glustiau i gyd, ac yn nadu ei air o groeso i ni. Ac os methwn a chadw'r oed ambell i Sul, yr un yw'r croeso i ni y Sul dilynol.

Na, tydi Mul Bach Cae Metta byth yn llyncu mul nac yn sylcio, os methwn a mynd i edrych amdano ambell i bnawn Sul.

Rwy'n siwr hefyd na fydd i'r un ohonoch chitha sylcio na llyncu mul os na fedar rhen Santa ddod a 'phopeth' i chi.

Ond, o ran hynny, fydd plant byth yn llyncu mul — oedolion sy'n dueddol o wneud hynny.

* * * *

Nadolig Llawen i chi gyd a Blwyddyn Newydd Dda, ac os bydd un ohonoch chi blant yn adrodd hanes Mul Bach Cae Metta yn eisteddfodau'r Urdd ddechrau'r flwyddyn ma — wel pob lwc ichi.

Gadewais ef
yng nghaethiwed dôl Cae Metta
i freuddwydio'n ddwys
am dywod euraid a sŵn plant,
am donnau pell
— yn sibrwd cyfrinachau'r môr.

Ei adael yno
i ddychmygu clywed ar delynau'r gwynt
sŵn Hosanna'r Fuddugoliaeth Fawr,
a rhwd y rhedyn crin
yn balmwydd dan ei garnau.

NEWYN

I ardal mor gyfoethog daeth newyn a chwant,
Hanner dwsin mewn capel, lle gynt y bu cant;
Cymdeithas yn llwgu, ond y dafarn yn llawn,
Dim ots am y Sabath, mynd am beint bach sy'n iawn.

Y Gymraeg yn diflannu, diwylliant ar drai,
Efelychu y Saeson i blesio rhyw rai;
Y Cymro fel estron yn ei wlad ef ei hun
Yn clafychu fel oenig, mor bitw ei lun.

Dihoeni mae'r ifainc am y cyffur o'r dur,
Poenydio'r wythïen, er mwyn lleddfu eu cur;
Ac yn y tai yfed, ymysg slotian a mwg
Mae 'na ferched a dynion a'u bwriad ar ddrwg.

Mae'r Cymro'n ei newyn, wedi anghofio am Dduw,
Ac yn ei anialwch mae mor fyddar ei glyw;
Ond pechadur wyf innau, a minnau'n gweld bai
Yn lle brwydro'n y llanw, 'rwy'n mynd gyda'r trai.

JOHN V. MORRIS, Rhianfa, Clwt-y-bont


GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul
★ Cwrw Felin Foel
Royal Victoria Hotel
wrth droed yr Wyddfa


NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth bawb yn
BWS PADARN BUS
STÂD DDIWYDIANNOL GRIFFITHS CROSSING, LLANFAIRISGAER
Ffôn: (0286) 674468
BYSUS MAWR A BACH AR GAEL I'W LLOGI

CROESAIR RHIFYN Y NADOLIG



I LAWR

1. Fe all ymddangos ar (12 i lawr) (1 ar draws) neu ei ddwyn o'r siop mewn basged (5)
2. Sefyllfa teulu arbennig rhyw (1 ar draws) lawer blwyddyn yn ôl (7)
3. Fydd dim angen hwn ar yr (22 ar draws) fore (1 ar draws) (5)
4. Yr hyn a wna'r eira wrth gannu (6)
5. Ffyliaid y ffair (7)
6. Clwyf peryglus yn gynnwys gôr (5)
7. Un sy'n ffafrio perthnasau (7)
12. Y rhain y bydd y postman yn eu derbyn os na fydd yn eu danfon cyn y (1 ar draws) (7)
13. Awgrymu drwy gau ac agor y llygaid (7)
15. Clirio neu baratoi'r ffordd (7)
16. Cyn rhoi'r papur ar y wal, cymysgu'r post, ia? (6)
18. Hen ddyn drwg, budr (5)
20. Yr hyn a wna (18 ar draws) mae'n fwy na thebyg (5)
21. Taliesin, pan oedd yn hogyn bach, yn rhoi ysgwytiad iawn i gi Now (5)

AR DRAWS

1. Nid diwrnod digalon, sut bynnag yr edrychir arno (7)
5. Cyfarchiad amserol pan mae'n cyd-fynd 'efo (1 ar draws) (5)
8. Hogan fach sy'n codi'n fore iawn, ac nid yn unig ar y (1 ar draws) (5)
9. Dyletswydd y ffowlyn erbyn (1 ar draws) (7)
10. Hen ŵr fu'n ddigon doeth i ganu ar ei ben ei hun ar yr ynys (7)
11. Gŵr o râdd uchel yn deillio o Ddaren (5)
12. Dirwy neu gosb (6)
14. Anferth (6)
17. Un o gymeriadau mwyaf lliwgar (12 i lawr) (1 ar draws) (5)
19. Yn perthyn i larll gydag awdurdod a breintiau brenhinol ar diriogaeth (7)
22. Efallai fod tei lwan yn dangos i ba genhedlaeth mae'n perthyn (7)
23. Yn Abergele, nid yn y Rhyl y buom y flwyddyn yma (5)
24. Yn syth i'r undeb Saesneg (5)
25. O ddefnyddio pin i wnïo, mae rhywun yn creu barn (7)




CROESAIR RHIFYN RHAGFYR

Mae'n fwy na thebyg mai'r ffaith fod y diwrnod cau ar gyfer derbyn y cynigion ychydig ynghynt y mis yma sy'n gyfrifol am i mi dderbyn ond tri ateb i groesair Rhagfyr. Er hynny, mae'r tri chynnig yn berffaith gywir, ac fe hoffwn longyfarch E. E. Jones, Rhoshirwaun; Elfed Evans, Llanllechid; a Mrs Jean Hughes-Jones, Llys Gwilym, Pencaearu, Rhiw, Pwllheli. Mae'r tri yn cystadlu'n rheolaidd, a thro Mrs Hughes-Jones ydi hi i ennill y wobr y tro hwn.

Fe sylwch fod rhywbeth ychydig bach yn wahanol ym mhôs y mis hwn, a hynny am resymau digon amlwg. Gyrrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, i gyrraedd erbyn IONAWR 17, 1994.

Mwynhewch y Gwyliau, a phob lwc ar y datrys!

CROESAIR RHAGFYR



Dyddiadur y Mis

4 Mawrth. Llanberis: Capel Coch — Cyfarfod y Plant yn ailddechrau.
6 Iau. Deiniolen: Cyfarfod y Plant yn ailddechrau yn Ebeneser.
7 Gwener. Bethel: Plaid Cymru — Twmpath Hen Galan yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon, am 8 o'r gloch.
10 Llun. Cwm-y-glo: Undeb y Mamau. **Deiniolen:** Cyngor Eglwysig — Oedfa dechrau blwyddyn yn Libanus am 7 o'r gloch.
11 Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr — Cymorth Cyntaf gyda Bernard Jones.
12 Mercher. Llanrug: Plaid Cymru — Hanes taith Mr Evan Parry i Batagonia.
13 Iau. Llanberis: 'Noson Codi'r To' yng Ngwesty'r Dolbadarn am 7.30 o'r gloch er budd Apêl Atgyweirio Tŵr yr Eglwys.
17 Llun. Brynrefail: Sefydliad y Merched.
20 Iau. Dinorwig: Y Gymdeithas Undebol — Pedwarawd Liz Perkins.
24 Llun. Deiniolen: Y Gymdeithas Undebol — 'Brethyn Cartref', yn y Caban am 7 o'r gloch.
25 Mawrth. Deiniolen: Clwb Elidir.

RHODDION

£20: M. A. Jones, 12 Dôl Eilian, Llanberis.
£10: Mrs Bessie Ellis, 15 Cremlyn, Bethel.
£5: Parchg Tegid Roberts, Arwel, Llanrug.
£5: Mrs Annie Parry, 14 Hafan Elan, Llanrug.
£5: Mair, Tom a Raymond, Llanrug.
£5: Nigel Kirkpatrick, Llanrug.
£5: Mr a Mrs Rol Williams a Gethin, 5 Stad Pantywaun, Waunfawr.
£5: Mrs Dilys Pritchard, 1 Ffordd Deiniol, Deiniolen, er cof am ei phriod Mr Hugh Emyr Pritchard.
£4: Mr a Mrs Bob Williams, 5 Rhes y Faenol, Llanberis.
£3: Mr Arthur Williams, Pennant, Nant Peris.
£3: Di-enw.
£2: Mr Thomas Arthur Pritchard, Berth, Llanberis.
£2: Carolyn a Martin, Bryntirion, Penisarwaun.
£2: Mrs Ceridwen Williams, Llanrug.
£2: Mr Dafydd Morris, 2 Bryngolau, Waunfawr.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
ODDI WRTH
KMP LLANBERIS
DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN
Dim bysus Sadwrn/Sul 25, 26, Rhagfyr na Dydd Sadwrn 1 Ionawr
Gwasanaeth Sul ar 27 a 28 Rhagfyr a 2 Ionawr

CHWARAEON

CWIS NADOLIG YR *ECO*

1. Pa chwaraewr lleol orffennodd 'un yn brin' o uchafbwynt ei yrfa yn ystod y flwyddyn?
2. Pa ŵr lleol oedd capten tîm pysgotal Cymru eleni?
3. Beth oedd enw llawn y clwb pêl-droed o Gynghrair Dyffryn Conwy a gurwyd gan Ddeiniolen yn y Cwpan Iau eleni?
4. Pa record dorwyd gan Glwb Pêl-droed Llanrug eleni, ac yn erbyn pwy?
5. Ar pa faes pêl-droed enillodd Gavin Allen gap i dîm –18 Cymru eleni?
6. Pa ŵr lleol aeth i'r Gemau Olympaidd fel swyddog ym 1993?
7. Pa ferch o'r ardal oedd mewn tîm a gurodd Manchester United 4-1?
8. Ym mha gamp y daeth pencampwriaethau Gwynedd i Meilir Jones a Joe Neale eleni?
9. Gareth Roberts oedd enillydd ieuengaf Tlws y Mis eleni. Ym mha gamp mae Gareth yn ymddiddori?
10. Ar ba olygfa enwog yn Ewrop yr edrychodd Kevin Evans i lawr arni eleni?
11. Pa dimau enillodd Tlws Pêl-droed yr Eco i dimau –12 a –10 eleni?
12. Gyda pha dîm chwaraeon mae Derek Lloyd Jones yn gysylltiedig?

GWELER YR ATEBION AR DUDALEN 16

Annwyl Santa . . .

Ar ran Clwb Deiniolen, plîs gan ni ennill y Cwpan Iau eleni. 'Da ni wedi gaddo i Ieuan Williams nawn ni ddim torri top y dybl dec i ffwrdd pan dan ni'n mynd a'r cwpan rownd y pentra. Santa, nei di hefyd ffendio job i Graham Taylor a Terry Yorath. 'Dan ni ddim isio John Cefn fynd i Everton neu unlla arall.

* * * *

Mae Michael Wroe yn gofyn os gawn ni lot mwy o eira yn lleol. Bysa fo yn cael sgîo yn yr ardd gefn wedyn, a fasa ddim rhaid iddo fo fynd rownd pentrefi yn codi pres.

* * * *

Plîs gawn ni gae-bob-tywydd yn Ysgol Brynrefail. Mae Mêt yn niwsans bob mis yn swnian am **rwla** i hyfforddi plant. 'Dan ni'n addo y basa lot yn 'i iwsio fo. Bysai'n grêt ca'l un cae fflat yn y cylch 'ma!

* * * *

Geith Colin Jones fynd i'r Comonwelff Gêms nesa! Mae o di rhedag a rhedag drwy wynt a glaw ac eira. Mae'n haeddu mynd i un gystadleuaeth mewn gwlad boeth.

* * * *

Plîs geith Llanbêr ennill y Welsh League. Bysa'r ardal wrth 'i bodd yn gweld tîm yn mynd un cam yn nes at y Konica. Basa Jiws Bach yn ca'l chwara adra i tîm dad wedyn.

* * * *

Santa, wnewch chi drio ca'l Fron Dinas i neud eu meddwl i fyny os ydyn nhw am fod yn dîm bro'r Eco ne beidio. Cricet ydi'r brif gêm syn dal yn ddiarth yn y fro!

* * * *

Santa, wnewch chi roi presant bach i bawb o'r noddwyr lleol sy' — hyd yn oed yn amser dirwasgiad — yn rhoi yn hael i gynnal chwaraeon y cylch.

Wnewch chi, Santa, drio ca'l cap pêl-droed Cymru i Jonathan Davies o Lanrug. Bysai'n dangos i Gymru fod yr hen ardal yn dal i gynhyrchu pêl-droedwyr o safon.

* * * *

Santa, wnewch chi ddeud 'diolch yn fawr' a dymuno 'Nadolig Llawen' i bawb o'r fro sy'n fodlon codi'r ffôn gyda hanes stori i'r golofn yma bob mis.

TLWS Y MIS



Roedd y Draenog yn awgrymu y tro diwethaf fod gan y Golygydd Chwaraeon reswm personol pam na ddyfarnwyd y Tlws yn ddiweddar. Y gwir yw fod y Tlws yn un o'r prif Dlysau a ddyfernir yn lleol, ac felly nid ar chwarae bach y dosberthir hwy!

Y mae'r enillydd y tro hwn yn wir haeddiannol o'r fraint. Gellir mesur ei gyfraniad i'r gymdeithas leol ar lawer lefel: athro, actiwr, trefnydd 'fixed odds', siaradwr wedi ciniawa (posh te!), ac un â'r ddawn arbennig i wneud i bobl chwerthin. Ar ben hyn mae'n rhoi 'ychydig' o'i amser i'r FFWTBOL. Ia, Iwan Lloyd Williams. Pwy, meddech chi! JIWS. Gall wynebu'r Nadolig yma gyda thipyn o falchder gan fod y Darans yn hollol haeddiannol ar ben Cynghrair Stena Sealink. Fel un a reolodd Llanberis yng Nghynghrair Arfon a Chynghrair Gwynedd cyn hyn mae hynny rwy'n siŵr yn destun cryn falchder iddo. Pan fo rhywun wedi gweld y dyddiau llwm, mae'n gallu blasu melysdra llwyddiant yn well, gydag urddas ac yn ddiymhongar. Mae nifer wedi cyfeirio at y gymysgedd lwyddiannus o fechgyn lleol a chwaraewyr 'dŵad' y mae Jiws wedi eu plethu eleni. Y mae'r ffaith i chwaraewyr profiadol ddod i Lanbêr yn arwydd o ddylanwad Jiws ac hefyd edmygedd chwaraewyr tuag ato. Boi Llanbêr ydy Jiws. Dyna'r rheswm pam bu ei 'orffwys' mor fyr ac yr ailafaelodd yn yr awennau. Y mae'r fath ymroddiad yn haeddu cefnogaeth yr ardal.

Dymunwn yn dda iddo yn ei waith wrth iddo gychwyn swydd newydd yn Llandudno. Gobeithio mai hwn fydd y Tlws cyntaf o lawer y bydd Jiws yn rhoi ei ddwylo arnynt eleni. Diolch i Sel — un o sêr y gorffennol — am gyflwyno'r Tlws.

Gemau'r Ŵyl Ers Talwm

Soniais o'r blaen fy mod wedi cael benthyg llyfrynnau o nodiadau am hanes Clwb Pêl-droed Llanrug gan Twm Davies. Mae oriau o waith pori ynddynt. Edrychais drwyddynt i weld pa gemau gymerodd le dros yr Ŵyl mewn blynyddoedd a fu. O reidrwydd, gemau 'derby' yw'r rhan fwyaf ohonynt. Y mae cyfeiriadau eraill sydd yr un mor gyfarwydd i ni heddiw.

Rhagfyr 21, 1923: Gohiriwyd y 'Subscription Sale' er lles y Clwb tan lonawr 10, 1924, gan nad oedd 'the tickets and cash have not been returned by the sellers.' Ydych chi wedi gwerthu'r tocynnau raffl eleni?

Rhagfyr 25, 1923: Gêm yn y National League, Div. 3. Llanrug yn dychwelyd o Lanberis 'with joyful hearts' ar ôl ennill 4-1. Llanberis oedd ar frig yr Adran bryd hynny.

Rhagfyr 25, 1924: Llanrug yn colli yn erbyn y Felinheli ym Mharc y Faenol. Diddorol sylwi fod tîm Llanrug yn cael eu hadnabod fel 'Rugites'.

Rhagfyr 25, 1925: Mr Robbins, ysgrifennydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi diarddel tîm Nant Peris, 'until they come to their senses and appologize'. Roedd tîm y Nant yn 'courting trouble when they assaulted the referee during the Llandegfan match'. Record y Nant ar y pryd oedd: Ch5, E0, C4, Cl1, gôl 9, yn erbyn 37, Pt1.

A oes gormod o gemau dros yr Ŵyl. Dyma restr gemau Llanrug adeg Nadolig 1954 — 24/12: Llanrug 1, Bangor City Colts 2. 25/12: Llanrug 4, Deiniolen 1. 26/12: Deiniolen v Llanrug (ni roddir canlyniad). Nodir am y gêm Gŵyl Sant Steffan, 1958, fod hi'n 'surprise' fod Llanrug wedi colli gartref i Ddeiniolen, 'who have done none too well recently'.

Cafwyd adroddiad diddorol yn y *Caernarvon & Denbigh Herald* (o ble daw y mwyafrif o'r wybodaeth) ym mis Rhagfyr 1949. 'Roedd Mr Denny, ysgrifennydd Llanberis Reserves yn dweud wrth bwyllgor y gynghrair fod y tîm yn ystyried tynnu allan o'r gynghrair. Y rheswm oedd 'a club debt of £9-10-1.' Y prif reswm oedd 'very little local support'. Â'r ysgrifennydd ymlaen, 'in fact, the Llanberis football fans went to Llanrug or Caernarfon when his team had a home game'. Roedd Seiont Rovers wedi chwarae yn Llanberis a'r 'total gate of 9s 9d was due to 6s 6d paid by the Rovers supporters'.

Wel dyna gipolwg yn ôl. Yn amlwg fe fyddaf yn cyfeirio at lyfrynnau Twm eto. Yn wir, maent yn drysor.

BLE'R AWN NI PNAWN 'MA DAD?

Pa well ffordd i gael awyr iach dros yr Ŵyl na mynd i gefnogi un o'n timau pêl-droed lleol?

Dyma gemau sy' ar ddod:

LLANBERIS

28.12.93: Llanberis v Bangor, 2.15 p.m.
03.01.94: Felinheli v Llanberis, 2.25 p.m.
15.01.94: Llanrug v Llanberis (Cwpan Barritt), 1.45 p.m.
22.01.94: Rhyl v Llanberis (Cwpan Her y Gogledd), 1.45 p.m.

LLANRUG

27.12.93: Penrhos v Llanrug
03.01.94: Llanrug v Pwllheli Boro'

DEINIOLEN

28.12.93: Felinheli v Deiniolen
03:01:94—Deiniolen v Caernarfon Boro'.